ISSN 1753-1071


# CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

Rhifyn 347 - 60c
Hydref 2016


Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Wyth wythnos yn America



Tudalen 5

Y Wladfa a Chymeriad Bro



Tudalen 9

Dynion Haearn Sarn Helen



Tudalen 14

# Sioe Lwyddiannus Llanllwni

Adroddiad ar dudalen 6.



# Conffyrmio 33 yn Llanybydder



Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig iawn yn Eglwys Sant Pedr, Llanybydder ar fore Sul 18 Medi wrth i 33 cael eu conffyrmio gan Esgob Tyddewi, Y Gwir Barch. Wyn Evans. Roedd y grŵp yn cynnwys aelodau o Eglwysi Llanybydder, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen a Llanfihangel-ar-Arth. Roedd yn hyfryd gweld brodyr a chwiorydd a theuluoedd cyfan yn derbyn conffyrmasiwn gyda'i gilydd a nifer yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Diolchir am y gwaith yn yr Ysgolion Sul, ac mae yn deyrnged i'r athrawon sydd wedi helpu'r pobl ifanc i dyfu yn eu ffydd. Diolch i Janet Howells a Kay Davies a'r tîm am eu hymrwymiad yn y gwaith hwn. Diolch i aelodau Sant Pedr am baratoi yr Eglwys a'r lluniaeth. Pleser oedd croesawu Esgob Wyn a'i Gaplan, Canon Paul Mackness ar gyfer y Conffyrmasiwn olaf cyn ymddeoliad yr Esgob. Llongyfarchiadau mawr i bob un o'r ymgeiswyr.

# Priodas Dda



Lowri Daniel, Llys Barcud, Cellan a Gwyn Loader, Caerdydd a briodwyd yn Eglwys Sant Silin Cribyn dros yr Haf.



Enfys Hatcher, Cefn Hafod, Gorsgoch ac Emyr Davies, Aberdauddwr, Llanddewi Brefi a briodwyd yng nghapel Brynhafod Gorsgoch. Hoffai'r ddau ddiolch o galon i bawb am bob cefnogaeth a help gyda'u priodas ym mis Medi. Diolch hefyd i bawb am eu rhoddion a'u cyfarchion cynnes. Diolch i bawb am bopeth.



Llongyfarchiadau i Elin Frongelli, Llanllwni ar achlysur ei phriodas â Gareth Griffiths ym mis Awst. Pob dymuniad da i chi ar gyfer y dyfodol.

www.facebook.com/clonc360 @Clonc360

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Aildrydarodd
**@Clonc360** neges
**@Craffwr**
Medi 24

Y sgôr derfynol: Tîm Ieuenctid @LampeterTownRFC 30 @TumbleRFC 5. Da iawn #Llanbed.


Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
**@Clonc360**
Medi 24

Diolch i @mawwfire am rwystro'r tân heddiw yn @contis_cafe #Llanbed. Lluniau: @shirintomos

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
**@Clonc360** neges
**@BedyddGogTeifi**
Medi 20

Diolch i Super Jim am araith hyfryd yng Nghinio Blynyddol @BedyddGogTeifi yn Llain y Castell heno.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
**@Clonc360** neges
**@cffillanwenog**
Medi 19

Noson o joio gyda Gwenllian Siop heno yn y clwb! Pawb wedi joio!!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
**@Clonc360**
Medi 18

Digwyddiad arall i gofio am Parch D Jacob Davies yng Nghwmsychpant pnawn ma yng nghwmni Jim Parc Nest.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd
**@Clonc360**
Medi 12

Ymwelydd annisgwyl ag un o gaeau Lowtre #Llanwnnen! Ymddangosodd bore ddo a diflannodd am afon Teifi

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Hydref | Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd | 422992 |
| Tachwedd | Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen | 480526 |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | |
| Tîm Golygyddol | Elaine Davies, Siwan Davies, Dylan Lewis, Marian Morgan a Delyth Morgans Phillips | |
| Dylunydd y mis | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Alwen Edwards, Awel Teifi | 421001 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Eirlys Owen, Cwmderi | 481041 |
| Llanwnnen | Elin Thomas, 1 Teras Sycamor | 480239 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach | 481855 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu lluniau plant i'w cynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

Ar ddiwedd Medi cynhaliwyd noson gyda bandiau roc Cymraeg yn Neuadd Fictoria, Llanbed dan nawdd 'Celf Llanbed'. Y bandiau dan sylw oedd Ysgol Sul a Mellt.

Mor braf oedd cael mynychu'r hen neuadd a welodd grwpiau gorau Cymru yn perfformio yno dros y blynyddoedd. Pwy sy'n cofio digwyddiadau fel 'Twrw Tanllyd' yno a chyffro bandiau fel Louis a'r Rocyrs, Derec Brown a'r Racaracwyr, Jim O'Rourke a'r Hoelion Wyth, Y Ficar, Maffia Mr Huws a Treiglad Pherffaith? Y lle'n dan ei sang bryd hynny.

Mor wahanol oedd noson Ysgol Sul a Mellt yn ddiweddar. Yn un peth, mae'r neuadd wedi ei hadnewyddu gyda chegin oedd yn gweini bwyd a bar pwrpasol.

Mor wahanol hefyd oherwydd diffyg awydd Cymry ifanc lleol i fynychu'r digwyddiad. Ble'r oedd pawb?

Rhyw hanner cant o bobl oedd yno a deugain o'r rheiny yn fewnfudwyr canol oed, diolch amdanynt.

Ydy gallu'r ardal hon i drefnu gigs Cymraeg wedi dod i ben? Mae 'Tregaroc' a 'Gŵyl Nôl a Mlan' yn llwyddo. Beth oedd y rheswm am ddiffyg diddordeb ieuenctid yr ardal yn y noson hon? A oedd diffyg cyhoeddusrwydd tybed?

Mae Ysgol Sul a Mellt yn fandiau Cymraeg cyfoes. Roedden nhw ymhlith y bandiau mwyaf poblogaidd ym Maes B eleni, a da iawn nhw am berfformio mor broffesiynol yn Llanbed o flaen cynulleidfa druenus.

Mae angen dod o fan hyn bobl!

***Cloncyn***

# O'r Cynulliad

**gan Elin Jones AC**

Mae hi wedi bod yn haf prysur yng Ngheredigion, gyda llawer o ddigwyddiadau diddorol gan gynnwys Eisteddfodau a Sioeau Amaethyddol trwy gydol y sir, fel arfer.

Ond mae yna hefyd waith i'w wneud yn y sir, gyda dau ddigwyddiad sydd yn effeithio'n fawr ar nifer o bobl yng Ngheredigion angen sylw.

Y cyntaf yw'r newyddion bod y gwasanaeth bws 701 yn dod i ben. Roedd y bws yma, a oedd yn gyfarwydd iawn i nifer ohonom, mae'n siŵr, yn creu cyswllt uniongyrchol rhwng Aberystwyth, Llanbed a nifer o bentrefi a threfi ein sir gyda Chaerfyrddin, Abertawe a Chaerdydd.

Caiff ei ddefnyddio'n aml gan nifer o deithwyr hŷn fel modd cost effeithiol o deithio gyda sicrwydd a thawelwch meddwl i'n Prifddinas.

Roedd y cyswllt bws hefyd yn gyfarwydd iawn i fyfyrwyr Ceredigion, gyda nifer fawr ohonynt yn defnyddio'r gwasanaeth i deithio'n uniongyrchol rhwng trefi prifysgol fwyaf Ceredigion a thu hwnt.

Rydw i wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith er mwyn gofyn i'r Llywodraeth gydweithio gyda Chyngor Ceredigion ac unrhyw darpar ddarparwyr y gwasanaeth er mwyn ei alluogi, a'i sicrhau i'r dyfodol.

Yn ail, daeth y newyddion am benderfyniad cyfranddalwyr cymdeithas Tai Cantref i gyfuno â chymdeithas tai Wales a West. Fe bleidleisiodd bwrdd cyfranddalwyr Tai Cantref i fynd ymlaen gyda'r cytundeb gwerth £30 miliwn a fydd yn gweld cymdeithas tai Wales a West yn cymryd rheolaeth o tua 1,800 o eiddo Tai Cantref.

Mae'n siomedig iawn i weld Tai Cantref yn dod i ben fel cymdeithas tai annibynnol. Roedd yn gymdeithas arloesol yn ei ddydd, ac mae'n rhaid gofyn cwestiynau treiddgar nawr am y rhesymau sydd wedi arwain at y sefyllfa yma. Dylai archwilydd cyffredinol Cymru gynnal adolygiad o'r hyn sydd wedi digwydd er mwyn dysgu gwersi i gymdeithasau tai eraill.

Mae dau aelod newydd o staff wedi dechrau yn fy swyddfa dros yr haf, sef Meirian Morgan o Bwlch-llan a Matthew Woolfall Jones sydd yn wreiddiol o Bont-y-pŵl, ond wedi byw yn Aberystwyth ers bron i ddeng mlynedd.

Cofiwch gysylltu ar unrhyw adeg er mwyn trefnu cyfarfod, neu mae croeso i chi gysylltu â'r swyddfa er mwyn trefnu apwyntiad cymhorthfa.

# Gohebiaeth

Annwyl ddarllenwyr Clonc,

Eleni mae Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 mlwydd oed. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a bydd dau o'r rhain ym mis Tachwedd.

Ar yr 21ain o Dachwedd bydd noson Cofio yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7:30 y.h. Noson o gwis ysgafn am hanes y clwb fydd hon. Dewch am dro trwy archifau'r clwb i weld faint ry'ch chi'n ei gofio!

Ar y 26ain o Dachwedd bydd y Cinio Dathlu yn cael ei gynnal yng ngwesty Tyglyn Aeron. Dewch i ddathlu'r 60 a hel atgofion yng nghwmni aelodau, cyn-aelodau a chyfeillion y clwb. £22 yw pris y cinio. Cysylltwch â Sioned Davies os am ddod – 07790 856475.

Bydd nifer o ddigwyddiadau eraill yn digwydd rhwng nawr a haf 2017, felly cofiwch gadw llygad am fwy o newyddion! Mae'n siŵr o fod yn flwyddyn a hanner!

Gan edrych 'mlaen yn fawr i'ch cael i ddathlu gyda ni,
*Aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog*

# Yn y Gegin gyda Gareth

**Hyfrydwch yr Hydref**

Gyda mis arall daw blasau gwahanol i'n croesawu i'r gegin. Â'r dyddiau'n byrhau, beth am baratoi bwyd cyfoethog, cysurlawn.

Wrth i mi syllu i'r cwpwrdd bwyd, daw ysbrydoliaeth ambell dro i greu ryseitiau newydd o'r hyn sydd ar gael, gan ddefnyddio hefyd beth sydd yn weddill o gnwd yr ardd.

Pob hwyl wrth ddefnyddio cnwd y cynhaeaf

***Gareth***

**Fritata Gorbwmpen**

2 courgette
1 winwnsyn
Ychydig olew
6 wy
Pinsied pupur Cayenne
60g caws Feta
Llond llaw o fintys
Tun bach corn melys



**Dull**

1. Gratiwch y corbwmpenni, a thorrwch y mintys. Torrwch y winwns yn ddarnau bach.
2. Cynheswch padell ffrio fawr, ychwanegwch olew a ffrio'r gorbwmpen, winwns a'r mintys am tua 5 munud.
3. Curwch yr wy a'r sbeis, a blaswch â phupur a halen. Arllwyswch i'r badell ffrio a malwch y caws trosodd. Coginiwch am 4-5 munud, yna o dan y radell nes ei fod yn euraidd.
4. Gweinwch yn gynnes neu'n oer.

**Dip Betys a brigau caws**

500g betys wedi'u coginio. (Dim wedi'u piclo)
1 llwy de mêl
150ml hufen
Sest a sudd 1 lemwn
½ llwy de plu chilli
200g crème fraiche
2 llwy fwrdd o dil

Brigau - 1 pecyn o grwst pwff wedi rholio
1 wy
50 g cws
Hadau sesame neu babi

**Dull**

1. Datodwch y dudalen toes, brwsiwch ag wy a'i sgeintio â'r caws a'r hadau. Torrwch yn frigau 1 cm a'u rhoi ar hambwrdd pobi, a'u pobi am 12-15 munud ar 180º C
2. Malwch y betys mewn prosesydd bwyd, ac yn raddol ychwanegwch gweddill y cynhwysion. Rhannwch rhwng 6 gwydr ac oerwch am tua ½ awr.
3. Addurnwch â'r crème fraiche ac ychydig dil, a gweinwch gyda'r brigau.

**Calon Plwms a Chwstard**

250g menyn meddal
250g siwgwr mân
4 wy
250g blawd codi
¼ llwy de powdwr soda
¼ llwy de halen
1 llwy de fanila
75g cwstard parod
10 eirin wedi'u haneri
50g almwnau wedi'u tafellu
1 llond llwy fwrdd syryp



**Dull**

1. Trowch y ffwrn i 180º C Fan 160, Nwy 4. Irwch tun 20cm x 30 cm x 5 cm (tun Swiss Roll) a leiniwch â phapur gwrthsaim
2. Cymysgwch y menyn, siwgwr, wyau, blawd soda, halen a'r fanila, nes ei fod yn hufennog, yna'r blawd a hanner y cwstard.
3. Gwasgarwch dros y tun, yna gweddill y cwstard mewn pentyrrau, a'r plwms.
4. Pobwch am 25 munud, ac yna sgeintiwch y cnau trosodd. Nôl i'r ffwrn am 20 munud arall.
5. Brwsiwch â'r syryp, a gweinwch.

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**HYDREF**

6 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7.00y.h.
7 Noson Cyri a Chwis yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel Ar Arth am 7:30 yn gyda Cylch Meithrin Llanllwni.
9 Cyfarfod Sefydlu'r Parch Alun Wyn Dafis yn weinidog ym Mrondeifi.
9 Elinor Bennett – Telyn am 2.30y.p. yn Neuadd y Celfyddydau, Y Drindod Dewi Sant Llambed.
9 Dathlu'r Cynhaeaf yn Eglwys Llanwnnen 6.00y.h. gyda swper yn y Neuadd i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.
10 Cwrdd Diolchgarwch CFfI Llanllwni yng nghapel Gwyddgrug am 7yh
11 Cyfarfod Cangen Llanybydder Gymdeithas Diabetes yn Festri Aberduar am 7.30y.h. gyda Amie Phillips Swyddog Datblygu Cymru.
11 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7.00y.h.
11 Lansio 'Ar Grwydr' - cyfrol am dros 120 o grwydriaid gan y Parch Goronwy Evans yn Festri Brondeifi am 7.00y.h.
12 Clwb Cerdd Cledlyn, Neuadd y Pentre, Drefach 7.00-10.00yh
12 Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni am 7.00y.h. Pregethir gan y Parchedig Felix Aubel. Croeso cynnes i bawb.
12 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrhos gyda'r Parch John Gwilym Jones am 7.00yh.
13 Cwrdd Diolchgarwch Caersalem Parcyrhos a CFfI Cwmann yng nghapel Caersalem am 7.00yh.
14 Eisteddfod Ddwl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach.
14, 21 a 22 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gar Yn Neuadd San Pedr Caerfyrddin.
15 Bore Coffi yn neuadd Eglwys San Pedr, Llambed – 10–12y.p Croeso cynnes i bawb.
15 Diwrnod Shwmae Su mae.
16 Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Sul Noddfa Llambed am 5.00y.h.
18 Diwrnod Plant Mewn Angen. Bydd Goronwy a Beti a'r tîm yn derbyn cyfraniadau yng Nghapel Sant Tomos, Llanbed o 10yb i 5.30yp.
18 Cymdeithas Hanes Llambed. 7.30y.h. yn Hen Neuadd y Coleg. Nigel Nayling.
20 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7.30y.h.
20 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Plaid Cymru Llanbedr Pont Steffan, 7.30y.h. yn festri Shiloh
21 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion Cinio Cig Eidion yn Llanina, Llanarth.
25 Sefydliad Prydeinig y Galon Cangen Llanybydder a Llambed yn cynnal Noson Bingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8.00y.h.
25 Cawl a Chan CFfI Llanllwni yn Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau am 7.30yh lle perfformir eitemau'r eisteddfod. Oedolion £7 Plant Cynradd £3
29 Pwyllgor R.A.B.I Ceredigion Bore Coffi yn Neuadd y Dref, Aberteifi.
27 a 29 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont,Pontrhydfendigaid.
28 Parti Noson Calan Gaeaf yn y Llew Du, Llanybydder am 6.30yh.
29 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint. Manylion pellach wrth Mair Williams 01558 650292.

**TACHWEDD**

1 Cyfarfod Aelwyd yr Urdd Clocs Ffit gyda Tudur Phillips.
2 Plygu CLONC yn Festri Shiloh am 4.00y.p.
4 Cyngerdd Cyhoeddi Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro2017 yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul am 7:30y.h.
4 Cyngerdd gan Kees Huysmans a Chôr Meibion Cwmann yn Theatr Felinfach am 7:30y.h.
5 Noson Tân Gwyllt C.Ff.I. Pontsian yn Neuadd D H Evans, Pontsian.
5 Noson Tân Gwyllt Llambed, safle Gwili Tractors, 7.00y.h. Trefnir gan y Ford Gron.
5 Noson Tân Gwyllt yn y Llew Du, Llanybydder am 6.00yh.
5 Noson yng nghwmni John ac Alun a Wil Tân yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth am 8.00y.h. Elw at waith Elusen Ambiwlans Awyr Cymru.
13 Oedfa Sul yr Urdd yn Shiloh Llambed am 5.00y.h.
19 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Neuadd Brangwyn, Abertawe.
21 Noson o gwis ysgafn am hanes C.Ff.I. Llanwenog yn Neuadd yr Hafod, Gorsgoch am 7:30 y.h.
25 - 26 Ffair Grefftau yn Neuadd Pumsaint o 10.00yb – 4.00y.p. Dewis eang o gynnyrch, raffl a lluniaeth. Elw at Gofal Cancr y Fron Cymru.
26 Cinio Dathlu'r 60 yng nghwmni aelodau, cyn-aelodau a chyfeillion C.Ff.I. Llanwenog. Tyglyn Aeron. Sioned Davies – 07790 856475.
26 Cyngerdd blynyddol Côr Llanpumsaint a'r Cylch yn perfformio'r Meseia gan Handel am 7.30y.h. yng Nghapel Tabernacl, Caerfyrddin.

**RHAGFYR**

3 Ffair Nadolig ar y cyd gyda Ysgol Llanllwni am 10yb i 2yp. Mwy o fanylion i ddilyn.
3-10 Pantomeim Blynyddol Theatr Felinfach.
25 Cwrdd bore Nadolig yng Nghapel y Cwm am 9.00y.b.

# Fy nhaith i America am 8 wythnos



Ddechreuodd y daith drwy roi ffurflen gais mewn at y cwmni ‘Camp America’ nôl ym mis Medi. Roedd hyn yn broses hir gan oedd rhaid i mi wneud fy nghais a chynllunio fy mroffil i Camp America, wedyn oedd rhaid i mi fynd am gyfweliad yn Abertawe.

Roedd rhaid i mi aros cwpwl o wythnosau cyn fy mod yn cael gwybod os yr oeddem wedi llwyddo’r cyfweliad neu beidio – roedd hyn yn amser nerfus iawn. Ar ôl i mi ddarganfod fy mod wedi llwyddo’r cyfweliad, roedd rhaid i mi roi cais mewn er mwyn cael derbyn VISA er mwyn i mi gael teithio i America. Sai di bod mor nerfus yn fy mywyd, heddlu a driliau tu allan yn edrych yn hollol ‘serious’.

Ar ôl derbyn VISA a phasio’r cyfweliad, roedd yr amser yn mynd yn araf iawn yn aros am e-bost o camp oedd yn rhoi cyfle i mi i fynd i weithio iddynt allan yn America. Ar ôl i amser fynd heibio, mi dderbyniais yr e-bost pwysig oddi wrth camp ‘girl scouts of western new york’ yn Efrog Newydd, le roddent yn gofyn i mi i weithio iddynt dros yr haf. Roedd gwên o un glust i’r llall pan ddarllenais yr ebost hwn. Roedden ni mor hapus!!

Mi ddaeth y ddiwrnod mawr, le roedd hi’n amser i mi i hedfan o Lundain i Efrog Newydd. Fe wnes i gyrraedd y maes awyr yn adnabod neb. Mi gefais arwyddion i edrych allan am bobl a oedd yn gwisgo crysau llwyd yn dweud ‘Camp America.’ Ar ôl cyrraedd y maes awyr yn adnabod neb, o fewn 2 awr, fe wnes ffrindiau, ac o fewn 3 awr, wnes i cwrdd a 5 o ferched a oedd yn yr un camp â fi. Roeddem wedi clicio yn fuan, ac o hynny ymlaen, we ni’n gwybod ei fod yn mynd i fod yn haf perffaith. O fewn awr, roedd hi’n amser i fynd ar yr awyren a hedfan i Efrog Newydd – o fewn 7 awr, mi gyrhaeddon ni Efrog Newydd.

Ar ôl cyrraedd Efrog Newydd, roedd 8 awr arall o deithio gyda ni ar fws er mwyn ein bod ni’n gallu cyrraedd y camp. Nosweth wnaethon ni cyrraedd y camp, mi wnaethon jwmpo mewn i’r llyn er mwyn ‘coolo’ lawr o’r holl deithio. Roedd hyn yn ddechrau da i’r haf yn America.

Roedd yr wythnos a hanner cyntaf yn camp yn cynnwys glanhau a paratoi y lle yn barod i’r plant i gyrraedd, ‘open house’ le oedd rhieni yn gallu dod i weld y camp cyn i’w plant i ddod. Yn yr wythnos a hanner hyn, un o swyddi’r achubwyr bywyd oedd adeiladu’r tegan ddŵr a oedd yn 17ft dal – roedd hi mor dal a hefyd yn mor drwm. Ar ôl i’r wythnos a hanner hyn i basio heibio, roedd hi’n amser i’r plant i ddod. Ar ddechrau wythnos 1, mi gyrhaeddodd 70 o blant i’r camp, le gafon nhw i’w gwahaniaethu i ddau grwp, lle roedd 12 cwnselydd i bob grwp. Roedd y diwrnod nodweddiadol yn cynnwys achub bywyd a dysgu nofio i mi a hefyd aros da’m grwp i fynd i weithgareddau megis saethyddiaeth, marchogaeth ceffylau, celf a chrefft, nofio a’r tegan dwr.

Roedd y diwrnodau yn hedfan heibio gan ein bod ni mor brysur trwy’r dydd. Roedd fy swydd fel achubwr bywyd yn swydd dibynadwy dros ben, ond y swydd gorau allen ni byth ofyn am dros yr haf. Roedd gael y cyfle i fod yn achubwr bywyd allan yn America ar lyn mwyaf prydferth yn bythgofiadwy. Roedd y golygfeydd yn ffantastic, yn enwedig golygfeydd o’r llyn.

Ar ôl wythnos o weithio ar camp, roedd cyfle gyda ni i fynd adref gyda rhywun oedd yn byw yn agos i’r camp er mwyn ein bod ni yn gallu gweld a cael cyfle i fyw fel ‘American.’ Dros y penwythnosau, mi gefais cyfle i fynd i weld y Niagra Falls, parc thema o’r enw Derian Lake, mynd i bwthyn gwyliau un or merched le roedd llyn 30 erw. Roedd y penwythnos yn y bwthyn yn hollol amazing – wnaethon gwario trwy’r penwythnos yn y llyn a wnes i ddod o’r bwthyn yn edrych fel tomato ar ôl dal yr haul. Roedd hi mor neis i gael ei ofyn i fynd adref gyda rhywun am y penwythnos. Ar ôl un neu ddau ddiwrnod ar camp, roedden ni yn teimlo fel rhan o’r teulu yn awtomatig.

Gan fy mod i yn byw yn agos i’r ochr gwlad y byd, wnes i feddwl fy mod i yn mynd i fyw yn iawn yn camp, ond na. Un noswaith, mi roedd pedwar o ni yn byw mewn ‘cabent’ gyda 5 llygoden – ych a fi!! Yn un ‘cabent’ roedd 30 o lygod – 2 deulu o lygod. Ac yn bennaf, dydw i ddim yn ffan mawr o lygod, felly wnes i gwotio fy hunan yn fy sach cysgu yn nerfus iawn fod llygoden yn mynd i fod ar bwys fy nghwyneb erbyn y bore. Ar ben llygod, roedd nadroedd dwr yn y llyn, ac roedd y nadroedd hyn yn anferthol. Un o fy casinebion fwyaf yw nadroedd, felly we ni yn nerfus iawn yn aros ar y ‘dock’ tra fy mod yn gwneud fy swydd fel achubwr bywyd.


Ar y ben, hwn yw’r haf mwyaf ‘amazing’ rwy wedi cael. Dwi heb cael profiad mor ffantastig yn fy mywyd. Tra’n gweithio fel achubwr bywyd, rwyf wedi gwneud ffrindiau oes lle rwyf yn mynd i gadw gysylltiad gyda nhw am byth. Dim yn unig roedd fy nhaith i America yn brofiad anghredadwy, ond mae’r daith hyn wedi codi fy hunan – hyder a fy hunan – effeithiolrwydd.

Dydw i ddim yn gallu awgrymu rhywbeth gwell i wneud am brofiad i’ch dyfodol. Falle ei fod yn daith bach yn ddrud, ond roedd yr arian wedi cael ei wario’n dda! Credwch chi fi, os byddwch chi yn rhoi cais mewn i Camp America, wnewch chi byth difaru eich camau. Ewch amdani, a wnewch chi gael haf bythgofiadwy a haf mwyaf ‘amazing’ allwch chi byth gael.

*Sara Wyn Evans,* Cwmann

GWASANAETHAU YSWIRIANT FUW
Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.
Gweithio’n lleol? Byw’n lleol?
Yswirio’n lleol.
**Gwasanaethau Yswiriant FUW**
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556
www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FUW Cyf yn cael ei awdurdodi a’i reoli gan y “Financial Conduct Authority”. Rhif Cofrestru 615251.

Ceginau Lifestyle Kitchens Ltd



CELFI CEGIN A ‘STAFELL WELY, ATELOGION CEGIN WEDI EU FFITIO, TEILS WAL A LLAWR
DOLGADER,
SGWAR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER
**01570 480257**

**COMPASS OFFICE SUPPLIES**
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 12 Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

**Oh My Cod**
Siop Pysgod a Sglodion
**19 Stryd Fawr, Llanbed**
Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yp - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
*Arbenigedd ar garreg eich drws.*
**3 Stryd y Bont**
**Llanbedr Pont Steffan**
**01570 423156**

# Llanllwni




Dwy chwaer yn dod i'r brig yn Eisteddfod Tregaron: Alwena Mair Owen, Cwmderi, unawd offeryn cerdd, oed cynradd a Gwennan, unawd cyfnod sylfaen.



Nerys Thomas CFfI Llanllwni yn trefnu blodau yn Malvern.



Ceiros Lewis, Jac Jones a Gwennan Lewis CFfI Llanllwni yn coginio yn Malvern.

Yn Eisteddfod Felinfach cafodd Gwennan gyntaf ar yr Unawd ac Adrodd dan 6 oed ac Alwena, gyntaf ar yr Unawd ac adrodd 8 - 10 oed, cyntaf am ganu Emyn dan 9 oed, a chyntaf ar y Cerdd Dant dan 12 oed.

**Ysgol Llanllwni**

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n llwyddiannus dros yr haf yn cystadlu mewn sioeau lleol.

Rydym fel ysgol yn ymfalchïo yn llwyddiant Alwena Owen yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Mae hi, a'i chwaer Gwennan, yn enwau cyfarwydd mewn eisteddfodau. Da iawn chi.

Mae Clwb Campau'r Ddraig wedi dechrau i blant Blwyddyn 3-6 lle maent yn cael cyfle i ymarfer sgiliau pêl a gemau tîm.

Roedd yn braf gweld y plant a'r staff wedi gwisgo i fyny ar ddiwrnod cofio Roald Dahl yn 100 oed.

Ein Llysgenhadon Efydd am eleni yw Mathew Williams a Marigold Smith a dymunwn bob llwyddiant iddynt yn eu gwaith.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Medi: £10 – Clive Davies, Llansawel; £5 – Elliw Jones, Beilibedw, Llanllwni; £5 – Chris Glasson, Frondeg, Llanllwni.

**C.Ff.I. Llanllwni**

Cynhaliodd C.Ff.I. Llanllwni Sioe a Threialon lwyddiannus dros ben ddydd Llun Gŵyl y Banc. Tywynnodd yr haul drwy gydol y dydd, gan ddenu llu o gystadleuwyr a chefnogwyr o bell ac agos i ymuno â ni. Llywyddion y dydd oedd Mr a Mrs Bowen Jones, Parc y Blodau, New Inn.

Dyma restr o'r enillwyr. Treialon cŵn Defaid: Open National – E L Morgan gyda Jaff; Open South Wales – A Lyttle gyda Scott; Novice South Wales – Irwel Evans gyda Gem. Sioe Defaid: Defaid Ucheldir: Jones Highview; Defaid Iseldir: Jones Blaenblodau; Pencampwyr Defaid: Jones, Blaenblodau.

Cynnwys y Babell: Coginio – Moira Jones, Felingelli; Blodau – Janet Jones, Dwylan; Llysiau – Eric Jones, Dwylan. Cyffeithiau a gwinoedd – Janet Jones, Dwylan. Cynnyrch Fferm – Ken Howells, Gwarallt. Ffotograffiaeth – Osian Powell. Adran Plant ysgol: Dan 2 ac iau – Tudur George, Haulfryn; Blwyddyn 3-6 – Alaw Jones, Blaenwaun; Blwyddyn 7-13 – Nerys Jones, Pengrug.

I orffen y diwrnod cawsom Sioe Gwartheg lwyddiannus ar ffurf fideo yn nhafarn y Talardd, gydag ocsiwn i ddilyn. Enillwyr adrannau'r gwartheg am eleni oedd: Gwartheg Bîff – Teulu Blaenwaun; Gwartheg godro – Teulu Gwarcwm; Pencampwyr gwartheg – Teulu Gwarcwm.

Hoffem fel clwb ddiolch o waelod calon i bawb a wnaeth ein cynorthwyo cyn, yn ystod, ac yn dilyn y sioe i sicrhau sioe lewyrchus i C.Ff.I. Llanllwni. Nid yw'r costau i gyd wedi dod i fewn eto ond bydd yn sicr siec o dros £2,000 yn mynd i'n elusen am eleni, sef Ambiwlans Awyr Cymru. Cewch wybod y swm terfynol maes o law. Diolch.

Yn ogystal, llongyfarchiadau i un o aelodau'r clwb, Elin Frongelli ar achlysur ei phriodas â Gareth Griffiths ym mis Awst. Pob dymuniad da i chi ar gyfer y dyfodol.

Ar benwythnos olaf mis Medi, yn dilyn eu llwyddiant yn y rali ym mis Mai, aeth pedwar o aelodau o'r clwb i Malvern i ddiwrnod cystadlaethau cenedlaethol y Ffermwyr Ifanc. Bu Ceiros Lewis, Jac Jones a Gwennan Lewis yn cystadlu yn y coginio, a Nerys Thomas yn yr adran trefnu blodau. Llongyfarchiadau mawr i chi am gynrychioli eich Sir, a gobeithio eich bod wedi mwynhau'r profiad.

**Diolch**

Dymuna Mair a theulu y diweddar Dewi Jones, Brynsiriol ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y cardiau, blodau a lluniaeth a dderbyniwyd.

Diolch i'r Parchedig Dr. Rheinallt Davies am ofal o'r gwasanaeth ac hefyd i'r Parchedig Canon Eileen Davies a John Jones, Hengae am eu geiriau caredig o gysur. Diolch i Mrs Valerie Jones am ei gwasanaeth wrth yr organ.

Diolch i John ac Ann Jones, Talardd am y lluniaeth ar ôl yr angladd.

Gwerthfawrogwyd yn fawr y rhoddion er cof am Dewi, tuag at y nyrsys lleol a Meddygfa Llanybydder. Diolch i bawb.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni ar 12 Hydref am 7y.h. Pregethir gan y Parchedig Felix Aubel. Croeso cynnes i bawb.

**Eglwys Sant Luc Llanllwni**

Llawenydd yw llongyfarch dau bâr sy wedi priodi yn Eglwys Sant Luc yn ddiweddar. Ar Awst 24ain priodwyd Gareth Griffiths, Penplas, Llangynnog ac Elin Evans, Frongelli, New Inn. Maent wedi ymgartrefu yn Llanllwch. Ar Fedi'r 10fed priodwyd Eleri Jones, Dolauduon, Maesycrugiau a Hefin Thomas, Lleine Cynwyl Elfed. Maent wedi ymgartrefu yng Nghynwyl Elfed. Pob bendith a hapusrwydd i'r ddau bâr.

Llongyfarchwn blant y Plwyf sy wedi llwyddo yn eu harholiadau eleni, a phob lwc iddynt yn y dyfodol.

Braf cyhoeddi fod nifer o blant yr Eglwys wedi derbyn bendith Conffirmasiwn ar Fedi'r 18fed yn Eglwys Llanybydder, gan Esgob Wyn.

Bu trydydd gwasanaeth bedydd yn yr Eglwys fis Awst, sef Quinn Brown - mab Stuart a Kelly, Waunmartin, Maesycrugiau. Pob bendith iddo yn y dyfodol.

Bydd ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar Hydref 6ed, gyda Swper y Cynhaeaf i ddilyn ar y 7fed.

Mae'r Eglwys wedi colli cyfaill annwyl iawn, gyda marwolaeth Miss Nina Thomas Prengwyn. Roedd Nina bob amser yn gefnogol tu hwnt i weithgareddau Sant Luc, a chofiwn fod ei rhieni'n gorwedd yn y Fynwent. Coffa da amdani.

**Undeb y Mamau**

Ar Fedi'r 18fed braf oedd croesawu aelodau o Undeb y Mamau, Llanllwch i'r Neuadd Gymunedol i gael lluniaeth ysgafn cyn iddynt ymweld â'r Eglwys. Y llinyn cyswllt yw Eiryth (gynt Gwndwn), a ddywedodd pa mor braf iddi hi'n bersonol oedd dod â'i chyd-aelodau nôl i ardal ei mebyd, ac yn enwedig i'r Eglwys sy'n golygu cymaint i'w theulu. Cafwyd orig gyfeillgar yn eu cwmni. Janet ac Anita oedd wrth y coffi, a thywysodd Eric yr ymwelwyr i'r Eglwys, gan esbonio'r gwaith adnewyddu sy wedi ei wneud yn gymharol ddiweddar.

Dechreuwyd tymor Cangen Sant Luc gyda'r Cymun arferol. Bydd y cyfarfod nesa ar y Hydref 11eg, pryd y gobeithir croesawu Mr Gerald Coles, Pencader i olrhain hanes Plwyf Llanfihangel ar arth.

**Pen-blwydd Arbennig**

Pen-blwydd Hapus i Eleri Thomas Blaencwmdu ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Swydd Newydd**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhys Llywelyn (Glennydd gynt) ar ei swydd newydd fel Pennaeth y Tîm Marchnata gyda Hybu Cig Cymru yn Aberystwyth.

**Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni**

Ar nos Wener 7fed o Hydref cynhelir Noson Cyri a Chwis yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel Ar Arth am 7:30yh.

Tocynnau nawr ar gael. Cysylltwch: Ffion 07450 979360, Bethan 07779 469608, Donna 07854 072195.

Dyddiad i'r calendr: Ffair Nadolig ar y cyd gyda Ysgol Llanllwni ar 3 Rhagfyr, 10yb i 2yp.

# Llanllwni

**Cylch Ti a Fi**

Gweithgareddau Mis Hydref: 4/10 - Sesiwn stori a chanu gyda Nia Menter Iaith; 11/10 - Tywod a Dŵr; 18/10 - Crefft Calan Gaeaf; 1/11 - Operation Christmas Child.

Yn ystod Tymor yr Hydref cynhelir Cylch Ti a Fi bob prynhawn dydd Mawrth 1-3yh. Croeso i rieni, gofalwyr, mam-gus a tad-cus i ddod gyda'u plant i gymryd rhan yn y gwahanol gweithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros baned.

**Henoed**

Diolch i bawb a ddaeth i gyfarfod henoed Llanllwni ddiwedd Medi. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y flwyddyn newydd.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.


**Sefydliad Prydeinig y Galon**

**Cangen Llanybydder a Llambed**

**Noson Bingo**

**Yng Nghlwb Rygbi Llanybydder**

**ar y 25ain o Hydref, 2016**

**am 8 o'r gloch.**



Dathliadau 60

C.Ff.I. Llanwenog

Eleni mae C.Ff.I. Llawenog yn dathlu 60! Dyma rai o ddigwyddiadau'r dathlu:

**Cofio**

Noson o gwis ysgafn am hanes y clwb. Tachwedd 21ain, Neuadd yr Hafod, 7:30 y.h.

**Cinio'r Dathlu**

Dathlu'r 60 yng nghwmni aelodau, cyn-aelodau a chyfeillion y clwb. Tachwedd 26ain, Tyglyn Aeron. Cysylltwch â Sioned Davies os am ddod – 07790 856475

Croeso cynnes i bawb!



Cancer Research UK

**Noson gyda Clive Edwards**

yn y Llew Du Llanybydder

**Sadwrn 19 Tachwedd 2016**

8 o'r gloch

Llywyddion:
Mr a Mrs Andrew Thomas, Llanllwni

Rhif elusen : 1089464


# Llanfair Clydogau

**Sioe'r Pentref**

Cafwyd diwrnod braf eleni eto i gynnal ein ail sioe ar ddydd Llun, Gŵyl y Banc. Er bod nifer o'r cystadleuwyr i lawr ychydig ar y llynedd roedd y sioe yn llwyddiannus dros ben gyda phawb wedi cael pleser yn cystadlu ac edrych ar yr amrywiaeth o eitemau oedd yn cael eu harddangos. Cynhaliwyd y sioe yn y neuadd gyda marcîs y tu allan a'r sioe gŵn yn cael ei chynnal yng nghae Llanfair Fawr.

Yr enillwyr oedd: Amaethyddiaeth - Ian Evans, Esgairman ; Garddwriaeth - Elaine Coombes, Penlanmedd; Blodau (wedi eu tyfu) - Catherine Woodward, Glas y Dorlan ; Celf Flodeuol - Caroline Sinclair, Frondel; Celf Flodeuol i Blant - Beca Elan Ebenezer, Hafod Gwilym, Cellan; Gwaith Cywrain - June Adams, Plas yr Allt; Gwaith Cywrain i Blant - Rhydian Quan, Sŵn yr Afon; Coginio - Pat Martin, Pentrebannau; Coginio i Blant- Jac Hockenhull, Pentre; Cyffaith - Joyce Dixon, Ty Lon; Ffotograffiaeth - Dewi Williams, Arosfa, Cellan; Celf - Elaine Coombes, Penlanmedd ; Celf i Blant - Elis Hockenhull, Pentre, Beca John, Pentre ac Oisin Gartland, Pantyfedwen; Barddoniaeth i Blant yn Gymraeg - Beca Elen Ebenezer, Hafod Gwilym a Daniel Davies, Nant y Coed. Barddoniaeth i Blant yn Saesneg - Elonwy Thomas, Awelon. Sioe Gŵn - Dewi Williams, Arosfa.

Enillydd Troffi Barhaol Liz Mercer oedd Elaine Coombes ac enillydd Tarian Oswyn Lewis oedd Pat Martin. Beca Elan Ebenezer oedd enillydd Cwpan y plant.

Oswyn Lewis oedd llywydd y dydd a diolch iddo am ei rodd garedig o darian i'r sioe. Bydd y Darian hon yn mynd i enillydd y coginio bob blwyddyn. Mae Oswyn yn byw bellach yn Rhydaman ond wedi ei eni a'i fagu yn Llanfair ac yn para i gadw cysylltiad agos iawn a'r pentref.

I gloi y sioe cafwyd barbeciw o safon uchel gyda digon o fwyd a diod trwy gydol yr hwyrnos, a phawb yn eistedd tu allan yn y marcîs yn cael mwynhad arbennig ar noson mor braf. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at lwyddiant y sioe gyda diolch arbennig i Dai Jones, Llanfair Fach a'r pwyllgor a fu'n gyfrifol am gydgysylltu yr holl drefniadau.

**Y Cawl Aur**

Nid Llanfair na Chellan oedd yn ein croesawu ar ddydd Llun, 19eg o Fedi ond Caffi Hafan, yn Siop Rhiannon yn Nhregaron. Diolch i Linda Quelch am drefnu'r achlysur ac i Amanda a Sally am helpu. Ymysg y bobol oedd yn bresennol roedd pump wedi cyrraedd eu nawdegau a gyda Tilly yn dathlu ei naw deg ar y Sul canlynol cafwyd cacen a chanhwyllau a chanu iddi.

Ar ôl lluniaeth blasus yn awyrgylch hyfryd Siop Rhiannon, gwnaeth y rhan fwyaf aros i chwarae gemau, a phleser oedd cael cyfle i gymdeithasu gyda phawb a chroesawu rhai wynebau newydd.



Y Barbyciw ar noson sioe'r pentref (lluniau'r sioe ar y dudalen gefn).



Achlysur Y Cawl Aur yng Nghaffi Hafan, Tregaron.

**Sefydliad y Merched**

Cafwyd noson agored allan o'r cyffredin yn y neuadd pan ddaeth Debra Croft i siarad am wyddoniaeth gyfreithiol. Dechreuodd ei gyrfa trwy astudio a gwneud gradd mewn gwyddoniaeth a chael y cyfle i fynd ymlaen i wneud doethuriaeth mewn daeareg. Bu yn byw yn Haulfre, Heol Llanfair am rai blynyddoedd pan oedd yn gweithio'n 'freelance', ond mae erbyn hyn yn darlithio rhan amser ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ei phrif arbenigedd yw astudio pridd a thywod. Siaradodd hefyd am brintiau bysedd a'r amrywiaeth ohonynt a'r marciau oedd yn eu gwneud mor bersonol. Daeth cynulleidfa dda ynghyd i wrando a dysgu llawer am destun na ŵyr y rhan fwyaf ohonom lawer amdano. Dyma ddarlith olaf Debra i'r cyhoedd. Ar ddiwedd y noson cafodd pawb brofiad annisgwyl pan roddodd y cyfle i ni wneud print bys a'i roi mewn cylch allwedd os hoffem. Noson ddiddorol dros ben a phawb wedi mwynhau'r profiad addysgiadol. Diolch i bawb am gyfrannu at luniaeth hyfryd fel arfer.

Ar ddydd Sadwrn, Hydref 8fed bydd Ffair Grefftau yn cael ei chynnal yn y neuadd gydag amrywiaeth o stondinau. I ddechrau am 10 o'r gloch hyd 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Capel Mair - Hydref 20fed am 7 y.h. John Tudno Williams o Gapel Seion fydd yn pregethu. Croeso I bawb.

**Grŵp 'Whine a Twine'**

Mae'r grŵp yma yn para i gwrdd yn rheolaidd bob pythefnos ar brynhawn Iau. Fel rhan o'i gweithgareddau fe wnaethant gwilt, a phenderfynwyd ei ddangos mewn arddangosfa gwiltiau oedd yn cael ei chynnal dros dri diwrnod yng ngerddi Cae Hir yng Nghribyn. Y thema y flwyddyn yma oedd y 'Planet Suite' gan Holst. Gwnaeth yr aelodau benderfynu edrych ar y thema mewn ffordd ysgafn a dathlu Major Tim Peake a'i amser yn y gofod. Ar y cwilt mae darlun o Tim Peake yn arnofio uwchben y planedau lliwgar wedi eu gwnïo trwy 'appliqué' ar gefndir tywyll o ofod clytwaith. O gylch yr ymylon mae nodau o fiwsig o themâu 'Mars'. Cafodd y cwilt y wobr gyntaf ar Awst 26ain a daeth yn drydydd yn y gystadleuaeth dros y tri diwrnod. Roedd pawb yn hapus dros ben am lwyddiant y cwilt a'r gwaith oedd wedi ei gyflawni. Llongyfarchiadau i bawb a fu yn gweithio arno.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE
ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 01570 423244

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstrual problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones

Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644

# MiS y PaPUr NeWYdD

**Colofn Dylan Iorwerth**

**Gartre', ymhell i ffwrdd**

Y diwrnod o'r blaen, ro'n i'n sefyll ar ben Craig Twrch a'r llyn, ar ôl glaw'r prynhawn, yn disgleirio yn yr haul. A llun y mynyddoedd ynddo.

Nid Llyn y Gwaith oedd y llyn a doedd dim sôn o Sarn Helen na Dyffryn Teifi a mynyddoedd go iawn oedd y rhain, rhai ohonyn nhw'n uwch na 3,000 o droedfeddi.

A dweud y gwir, roedd yr enw ychydig yn wahanol hefyd. Creag an Tuirk oedd ar y map ond yr un oedd yr ystyr ... Craig y Baedd.

Yn ucheldiroedd yr Alban y mae'r graig yma, yn agos i'r fan lle'r oedd Rob Roy (eu Twm Sion Cati nhw) yn byw. Roedd yna fferm arall gerllaw o'r enw Monachyle Mhor ... y mwnwgl mawr.

Mewn sawl ffordd, fel yr enwau Gaeleg ar enwau Cymraeg, mae gogledd yr Alban a'r ynysoedd yn debyg i Gymru, ond heb fod cweit yr un fath.

Mae'r llynnoedd yn fwy, y mynyddoedd yn uwch a'r anialdiroedd yn fwy anghysbell. Hyd yn oed o ran cymdeithas a diwylliant, mae'r wlad sy'n ymestyn yr ochr ucha' i Glasgow a Chaeredin fel fersiwn wedi chwyddo o gefn gwlad ein hardal ni.

Yn y rhannau mwya' gwledig, mae patrwm y tai o hyd fel yr oedden nhw yma ganrif neu ddwy yn ôl – dyrnaid o gartrefi ar wasgar ar hyd y llethrau, heb unman yn ganolfan go iawn. Cymdogaethau yn fwy na phentrefi.

Lle mae olion ambell i hen fwthyn yn britho'r bryniau uwchben Dyffryn Teifi, mae yna glystyrau cyfan furddunnod yn ucheldiroedd yr Alban yn dangos sut y cafodd pobol eu clirio o'r tir i wneud lle i ddefaid a cheirw ac, os ydi'r Gymraeg dan bwysau yma, mae'r Aeleg wedi cilio llawer mwy.

Mae rhai o'r un cwestiynau'n codi hefyd wrth i fewnlifiad sylweddol o bobol groesi Mur Hadrian fel y byddan nhw'n croesi Clawdd Offa. Ar Ynys Skye - An t-Eilean Sgitheanach – pobol o ogledd Lloegr oedd i'w gweld yn llawer o'r busnesau, ar ddwy ochr y cownter.

Y ddadl gan rai ydy y byddai'r pentrefi a chymunedau'n marw heb y chwistrelliad yma o bobol newydd a hynny i'w weld yn llythrennol mewn pentre' bach arall ar y tir mawr, fwy neu lai gyferbyn â'r ynys.

Roedd cyrraedd Scoraig yn dipyn o gamp ynddi ei hun ... y dewis oedd dal un o'r cychod ysbeidiol ar draws y loch, neu gerdded pum milltir ar y llwybr caregog hyd y penrhyn gan gamu'n ofalus weithiau uwchben dibyn serth.

Yn y pen draw, roedd yna ddwy gymdogaeth fach, ychydig ar wahân; y tai bron i gyd yn berchen ar felin wynt fechan a phawb i raddau helaeth yn hunangynhaliol. Teuluoedd wedi symud i mewn oedd yno i gyd, wedi dod o Loegr i ddechrau yn y 60au ar ôl i'r bobol leol adael.

I neb oedd am ddianc rhag prysurdeb bywyd mewn dinas, roedd y lle'n baradwys fechan ac amser yn symud yn arafach. Roedd ychydig fyrddau gwybodaeth mewn rhan o hen oleudy bychan yn pwysleisio bod hon yn gymdogaeth lle nad oedd angen cloi drws.

Cymdeithas ddwad oedd hi, un a allai fod yn urhyw ran diarffordd o'r byd a, hebddi, fyddai dim yn Scoraig. Fel yn ein hardaloedd ni, dydi pobol leol – yn enwedig pobol ifanc – ddim eisiau byw ymhell o'r canolfannau lle mae gwaith a chyfleoedd yn brin.

Mae'r broblem fawr, wrth gwrs, lle mae yna gymuned leol a'r bobol ddwad, wrth feddiannu'r cartrefi, yn creu bylchau yn honno ac, wrth drwsio'r brethyn materol, yn teneuo a mallu ffordd o fyw.

Yn y degawdau ar ôl i'r gwrthryfel ola' fethu yn 1745, fe gafodd y ffordd Aeleg o fyw a diwylliant yr Ucheldiroedd eu chwalu'n fwriadol gan yr awdurdodau Prydeinig a rhai o dirfeddianwyr yr Alban ei hun. Fel Tryweryn ar dir sych.

Mae'r gorthrymder caled hwnnw'n dal i gael ei gofio hyd heddiw. Ond mae'r un peth yn gallu digwydd yn dawel bach, bron iawn heb inni sylwi.

# Llanwnnen

**Sefydliad y Merched**

Brynhawn Llun, 5 Medi aeth yr aelodau ar eu trip haf i Winllan Llaethliw, Neuadd-lwyd, Aberaeron a chael croeso twymgalon gan Richard, Siw a Jac. Dysgwyd am hanes sefydlu'r fenter o blannu'r winllan hyd at gynaeafu'r cnwd. Wrth gwrs, y rhan orau oedd cael blasu tri o'r gwinoedd – sef y coch, y gwyn a'r rosé. Wedyn aethpwyd ymlaen i westy Tyglyn Aeron lle cafwyd pryd o fwyd blasus a lle y cynhaliwyd cyfarfod mis Medi dan gadeiryddiaeth Avril Jones. Trafodwyd y busnes a diolchwyd i Ceinwen Roach a Mary Davies am drefnu'r daith. Cyn diwedd y noson cynhaliwyd y gystadleuaeth fisol ac enillydd y sgarff bertaf oedd Mary Davies gydag Irene Jackson yn ail a Jean Jones yn drydydd.

**Yr Eglwys**

Cynhaliwyd gwasanaeth teuluol ar y thema 'Bwyd' ar Fedi'r 18fed. Bu pob oedran yn cymryd rhan a diolch arbennig i Nia a Gwyneth am gyflwyno deialog ddiddorol dros ben. Mwynhaodd pawb baned o de cyn troi tuag adref.

**Rhifyn Tachwedd**
Yn y Siopau
**Tachwedd 3ydd**

Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn
**Hydref 24ain**

The Wash Tub
Heol y Gogledd
(gyferbyn â'r gofgolofn)
01570 423647
Gwasanaeth o safon uchel: smwddio, golchi, sychu a glanhau.
Ac yn golchi *duvets*.


Richard Jarman Dip CII, Cert CII(MP)
Partner Rheoli Cyfoeth
01239 613746
07816 923618
Ffordd newydd i reoli eich cyfoeth.
Cynllunio Cylludol | Cynilo a Buddsoddi | Yswiriant a Diogelu | Yswiriant Cartref
Cynllunio ar gyfer Ymddeol | Taliadau Treth | Yswiriant Bywyd | Rheoli Ystad | Morgeisi
Am gyngor ariannol annibynol
Dros bum mlynedd ar hugain o brofiad
Siambre Pendre, 20 Pendre, Abertiefi, Ceredigion. SA43 1JT
07816 923618 ✆ 01239 613746
richardjarman@tpllp.com www.richardjarman.tpllp.co.uk

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur:
• Bwyd Priodas
• Bwffe
• Te Angladd
• Digwyddiadau Maes
Hefyd yn Ystafell Weini cysurus Clwb Rygbi Llambed yn gwneud:
- Cinio Dydd Sul 12.00 – 2.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau
*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach*
Peiriant Rhostio Mochyn ar gael
Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Cefn Hafod
Gorsgoch
Cyri bob nos Wener, £6 y pen
Prydiau bwyd ar gael drwy'r wythnos
Nos Lun– Nos Sadwrn
Bwyd Cartref a Chwrw da.
Croeso cynnes i bawb!
01570 434 238

W.D. Lewis a'i Fab
Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk
Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Alec Page Gof
Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
01570 423955
www.alecpageblacksmith.co.uk

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
01570 422206 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

# Cymeriadau Bro gan Dylan Lewis



**Morfudd Slaymaker**

Mrs Slaymaker i'w chyn ddisgyblion, Morfudd i'w ffrindiau, 'Mam Gary Slaymaker' i eraill ond mae'n gyfaill cymwynasgar iawn i bobl y Wladfa hefyd.

Cofia llawer iawn ohonon ni am Mr a Mrs Slaymaker yn athrawon arnom yn Ysgol Llanbed, ac ydy, mae'r diddanwr Gary Slaymaker yn fab i Morfudd, ond mae'n fenyw brysur iawn mewn sawl cylch yn lleol ac yn llinyn cyswllt effeithiol iawn â Phatagonia a'i phobl ers blynyddoedd lawer.



Dywed Gary'n aml iawn fod Yr Heniarth, Maesyllan fel Llysgenhadaeth Ariannin. Tra ar ymweliad â Chymru bydd pobl Patagonia yn galw gyda Morfudd ac yn aros gyda hi am gyfnodau. Os oes rhywun lleol yn meddwl am deithio i Batagonia, yna maen nhw'n troi at Morfudd am gyngor a hithau wedyn yn hwyluso unrhyw daith arfaethedig. Menyw ddefnyddiol iawn i'w hadnabod yw hi!

Dywed Isaías Grandis sy'n weinidog yn Nhrefelin "Mae Morfudd yn wraig gyfeillgar iawn a chroesawgar, ac un sy'n coginio'n arbennig o dda!"

Mae'n fenyw siriol a sionc sy'n mwynhau jôc, ond hefyd yn fenyw sy'n glynu at y safonau gan ddweud ei barn heb flewyn ar dafod.

Ganwyd Morfudd ym Mhencader ond symudodd y teulu at Anti Annie yn Lleinau, Cwmann pan oedd Morfudd yn bedair oed. Mynychodd Ysgol Coedmor ac Ysgol Uwchradd Llanbed cyn astudio Gwyddor Tŷ yng Ngholeg Normal Bangor am dair blynedd.

Cafodd gynnig swydd fel athrawes yn Enfield yng Ngogledd Llundain, ond dylanwadodd ei thad arni, diolch byth, i gynnig am swydd yn Ysgol Llanbed yn 1960. A dyna ni wedyn, roedd llwybr ei bywyd wedi ei drefnu. Dechreuodd ar yrfa lwyddiannus fel athrawes goginio, a gwnïo hefyd yn hwyrach.

Cofir amdani yn athrawes awdurdodol a theg. Roedd yn athrawes a gredai mewn disgyblaeth lem ac roedd dysgu sgiliau hanfodol fel coginio a gwnïo yn rhan annatod o gwricwlwm ysgol yr adeg honno.

Roedd Eric eisoes yn athro Cemeg yn yr ysgol, a buan ar ôl i Morfudd ddechrau yno, syrthiodd y ddau mewn cariad. Ymhen blwyddyn fe ddyweddïodd y ddau ac fe gynhaliwyd y briodas yng Nghapel Bethel Parc-y-rhos yn Awst 1962.

Daeth Gary i'r byd yn 1963 tra'r oeddent yn byw yn rhif 1 New York, Cwmann, a bu Morfudd yn cadw Swyddfa Bost y pentref yn ogystal pan oedd y Gary yn fach. Ganwyd Meinir y ferch yn Llanbed yn 1970.

Mae Gary yn adnabyddus iawn ers blynyddoedd fel diddanwr ac adolygydd ffilmiau. Mae'n byw yng Nghaerdydd ac yn rhedeg ei gwmni ei hunan sef Slay Corp. Mae Meinir yn dipyn o gymeriad hefyd, ond yn berson mwy tawel a diymhongar. Mae hi'n byw yng Nghaerdydd hefyd ac yn Rheolwr Cynhyrchu i gwmni teledu Boomerang.

Yn Ogwen, Heol y Bryn y magwyd y plant cyn symud i Yr Heniarth. Parhaodd Morfudd fel athrawes yn Ysgol Llanbed, ond gwelodd newidiadau o ran pwysigrwydd coginio a gwnïo fel pynciau uwchradd. Cafodd gyfle i ymddeol yn 1995 ond roedd Eric wedi gorfod rhoi'r gorau iddi ers rhyw bedair blynedd oherwydd salwch. Bu colli Eric yn sydyn yn 1999 yn ergyd drom i Morfudd. Roedd e'n graig, a gyda'i gilydd y bydden nhw'n gwneud popeth. Gorfod dysgu addasu a wnaeth Morfudd, cadw'n brysur, ymwneud mwyfwy â ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd o bell ac agos.

Ond sut y dechreuodd y cysylltiad â Phatagonia? Treuliodd chwaer hynaf mam Morfudd sef Anti Mary ei blynyddoedd olaf yng Nghartref Hafandeg, Llanbed a gwyddai Morfudd fod Anti Mary yn llythyru â pherthnasau ym Mhatagonia. Chwaer tad-cu Morfudd, sef Ada, a ymfudodd yno yn wreiddiol.

Wedi marwolaeth Anti Mary ganol yr wythdegau, cafodd Morfudd yr awydd i barhau â'r cysylltiad Cymraeg â phen draw'r byd. Darganfu fod y teulu yn dal i fyw yno a bu'n llythyru ag Ada arall, sef wyres chwaer ei thad-cu erbyn hynny.

Tyfodd y diddordeb hefyd wrth i bobl ifanc o Batagonia ddod i Lanbed bob haf i ddysgu Cymraeg a gloywi eu sgiliau ar gwrs Wlpan yn y Brifysgol. Tri o fechgyn a ddaeth yn wreiddiol yn 1993 sef Gabriel, Sion a Daniel, a bu Eric a Morfudd yn eu croesawu i Yr Heniarth, eu bwydo a gofalu amdanynt yn ystod cyfnod hir o wyth wythnos. Un o'r bechgyn hynny, Gabriel Restucha, oedd Maer y Gaiman am wyth mlynedd. Wrth siarad â Gabriel am ei chysylltiad â Phatagonia, darganfu'r ddau eu bod yn perthyn i'r un person, sef Ada.

Blwyddyn yn ddiweddarach, daeth y bechgyn nôl i Lanbed gyda Chôr y Gaiman a daeth Ada draw gyda nhw a hithau'n wythdeg oed.

Parhaodd pobl ifanc Patagonia, drwy gymorth Cymdeithas Cymry Ariannin, i fynychu cyrsiau haf Llanbed tan 2006 ac yn ystod y cyfnod hwnnw chwaraeodd Morfudd ran allweddol ym mywydau tua chant ohonyn nhw.

Aeth Morfudd ac Eric i Batagonia am y tro cyntaf yn 1995, ac erbyn hyn mae Morfudd wedi bod yn yno ddeg gwaith. Wedi marwolaeth Eric, aeth Gary yn gwmni iddi yn 2001, ac yn 2003 aeth Meinir gyda hi. Roedd y daith honno yn un arbennig iawn oherwydd fe'i hanrhydeddwyd i Orsedd y Wladfa am ei charedigrwydd dros y blynyddoedd.

Mae Morfudd wedi gwerthfawrogi cwmni llawer o ffrindiau a chymdogion ar y daith hir honno i Batagonia ac yn ôl, gyda chymaint o storïau diddorol i'w hadrodd. Pobl fel Dilwen, Arthur, Tom, Veronica, Elma, Awen Brynsiop a Gwynfor. Ac mae'r dynfa i'r Wladfa dal yno. Cofia am ddathlu ei phen-blwydd yn chwedeg oed tra'r oedd hi mas yna, a wedyn yr un peth pan oedd hi'n saithdeg. Dymuna hefyd y gall wneud yr un peth pan fydd yn cyrraedd y garreg filltir nesaf.

Dywed fod y bobol mor gyfeillgar ym Mhatagonia a bod y croeso wastad yn gynnes ac yn Gymreig o gynnes yno. Yn ogystal â chadw cysylltiad â'r teulu yno, mae wedi gwneud cymaint o ffrindiau newydd. Mae Morfudd yn berson sydd wedi cofleidio'r dechnoleg fodern, ac felly'n cadw cysylltiad dyddiol â'i chyfeillion o Batagonia. Mae'n feistr ar yr ipad, e-bost a'r facebook. Er bod y pellter mewn milltiroedd yn dal i fod yn faith, mae'r pellter o ran cyfathrebu wedi lleihau. Gall Morfudd ddarganfod newyddion y Gaiman yn gynt na llawer o drigolion Trelew!

Felly yn ei hymddeoliad mae Morfudd wedi gwneud y mwyaf o deithio. Ond nid yw wedi gorffwys ar ei rhwyfau. Mae'n gwirfoddoli yn Amgueddfa Llanbed ac yn Siop Tenovus ar y Stryd Fawr. Mae'n aelod hefyd o'r cymdeithasau canlynol: Sefydliad y Merched, Coedmor; Merched y Wawr, Llanbed; Urdd y Benywod Brondeifi; Cymdeithas Hanes Llanbed; Capel a Chymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parc-y-rhos a Chymdeithas Cymry Ariannin. Mae'n cael hwyl ar fynychu gyrfaoedd chwist cartref Hafandeg ac yn un o selogion tîm plygu Papur Bro Clonc bob mis.

Gallwch ofyn y cwestiwn: O le mae'n cael yr amser i wneud pob dim? Mae fel consuriwr medrus yn jyglo pob dim ac yn mwynhau cwmni pawb ym mhob cylch.

Roedd Morfudd yn rhan o'r dathliadau ym Mhatagonia a Chymru'r llynedd. Aeth 150 o flynyddoedd heibio ers sefydlu'r Wladfa Gymraeg ym Mhatagonia. Mae'r iaith Gymraeg dal yn fyw ar ochr arall y byd wedi'r holl flynyddoedd, a diolch am gyfraniad diflino Morfudd a'i thebyg bod y cysylltiad rhwng y ddwy wlad mor gryf ag erioed.

# Cwmsychpant



Enillydd y cwpan am y marciau uchaf yn adran y gwinoedd Sioe Llandysul oedd Margaret Jones, Cwmsychpant.

**Capel y Cwm**

Ar nos Iau, Hydref 20fed cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm am 7:30 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parch Eileen Davies, Llanllwni. Croeso cynnes i bawb.

# Pentrebach

**Dathlu**

Dathlodd Mair Jones, Pant-teg ben-blwydd arbennig ganol mis Medi. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod.

# Gorsgoch



Huw a Kelly Morgans yn cyflwyno siec o £1,030 i Miranda Burdett, sef swyddog Cymru sy'n cydlynu gwaith codi arian ar ran yr elusen JDRF.

**Diolch**

Hoffai Huw Morgans, gynt o Glwydwern ddiolch i bawb a wnaeth cyfrannu tuag at Juvenile Diabetes Research Foundation ar achlysur ei ben-blwydd yn 50 oed. O ganlyniad i'ch caredigrwydd cyflwynwyd £1,030 i Miranda Burdett, swyddog o'r elusen.

**Merched y Wawr Cangen Yr Hafod**

Mae'r gangen eisoes wedi ail-gydio ym mis Medi, lle aethom ar daith hanesyddol o gwmpas Eglwys Llanwenog. Diolch i Mary Thomas am ein harwain mor hwylus. Roedd hi'n daith addysgiadol a diddorol iawn.

Croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni nos Fercher cyntaf bob mis. Byddwn yn cwrdd yn Neuadd yr Hafod am 7.30 nos Fercher y 5ed o Hydref i gael noson yng nghwmni Mererid Jones, lle bydd yn sôn am ei gwaith o ddydd i ddydd.

Ym mis Tachwedd, byddwn yng nghwmni Meinir Green, eto yn Neuadd yr Hafod, i gael noson o grefftau.

Wedyn yn Rhagfyr, byddwn yn stwffio ein boliau yng nghegin Gareth Goedwig, ar y 6ed, sef y nos Fawrth y tro yma.

Goronwy Evans sy'n cadw cwmni i ni yn Ionawr, i siarad am ei lyfr newydd. Bydd y noson hon hefyd yn cymryd lle yn Neuadd yr Hafod.

Felly os hoffech chi ymuno â ni, cysylltwch gydag Alwena Williams 434726, neu Eiddwen Hatcher 434238.

# Clwb Clonc

## Hydref 2016

£25 rhif 198 :
Sioned Hatcher,
Abernant, Llanwenog.
£20 rhif 363 :
Tony Lewis,
Brynawel, Cwmann.
£15 rhif 51 :
Geraint Davies,
Hengoed, Heol Llyswen,
Aberaeron.
£10 rhif 18 :
Lena Daniel,
Llys Barcud, Cellan.
£10 rhif 38 :
Mrs Mary Davies,
Maesglas, Drefach.
£10 rhif 189 :
Dan Griffiths,
Pengarn, Llanfair Clydogau.
£5 rhif 92 :
Owain Davies,
Gwndwn, Llanllwni.

# Silian



Yn Sioe Ebolion y Gymdeithas Merlod a Chobiau Cymreig ym Mhenparc, y pencampwr oedd ebol 'Ilar Aragon', adran C, gan Davies a Griffiths, Bridfa Ilar, Llanilar. Cyflwynwyd y cwpan gan Lywydd y Sioe, Mrs Llinos Spencer, Bridfa Felinmor.

**Llongyfarchiadau**

Ar Fedi 24ain ganwyd mab bach, Llion, i Jonathan a Dwynwen, Deri Goch, ŵyr bach i Heulwen a Tony. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.


CH
Gwallt gan Caryl
Yn Toriad Taclus Llanybydder:
Dydd Llun 9.00-7.00 a Dydd Mawrth 9.00-5.30
Teithiol:
Dydd Iau 9.00-2.30 a Dydd Gwener 9.00-5.00
Caryl Herrick
carylcwm@hotmail.co.uk
Salon: 01570 481425
Symudol: 07971629001

Graham Jones
Gwasanethau Cyfrifiaduron
* Datrys Problemau a Trwsio
* Ymweliadau Cartref o £45
* Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferolion Ar Werth
* Gwasanaeth Adfer Data
* Gwasanaeth Dylunio Gwefan
Ffôn 01545 560776
neu 07715 740777
www.tynici.com
graham@tynici.com

Dawns Emporium
Rhoddion Cymraeg a Phersonol
07818 020907
Drefach, SA40 9SX
dawnsemporium
www.dawnswelshgifts.co.uk

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*

Ymgynghorwyr Yswiriant
*Eryl Jones Cyf*
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Tai Bwyta / Siopau
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
E-bost: carol@ejic.co.uk
Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoledig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

# Llanybydder

**Eglwys San Pedr**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa Canmlwyddiant Brwydr y Somme 1916 ar Ddydd Sul 17eg Gorffennaf 2016 yn yr Eglwys o dan arweiniad y Parch. Suzy Bale er cof am y rhai a fu farw ym Mrwydr y Somme 1916. Ar ôl gwasanaeth yr Eglwys bu i bobl ymgynnull ger y Gofgolofn ar y Sgwâr. Bechgyn lleol a syrthiodd: Llewelyn Jones, Henfaes, Llanybydder (22 oed); Sgt J Thomas, Pandy, Rhuddlan, Llanybydder (26 oed); D H Davies, Gwynfryn, Llanwenog, (23 oed); E. Evans, Pontfanog, Cribyn (oed heb fod yn hysbys).

Diolch i bawb am gefnogi'r Gwasanaeth. Yn ystod y casgliad codwyd £157 fel rhodd ar gyfer cangen leol y Lleng Brydeinig.

Ar derfyn y Seremoni ger y Gofgolofn gwahoddwyd holl yn bresennol i ymweld â'r Arddangosfa Goffa ac i Ginio yn y Clwb Rygbi, Llanybydder er mwyn nodi'r achlysur.

Ar nos Wener 19eg o Awst cynhaliwyd taith gerdded 3 cilomedr ar Fynydd Llanybydder heb fod ymhell o Gartref Nyrsio Allt-y-Mynydd. Bu i'r 20 o gerddwyr fwynhau cinio blasus ar ôl hynny yng ngwesty'r Llew Du, Llanybydder.

Diolch i bawb sydd wedi noddi'r achlysur. Bu i Heather Jones (Y Fferyllfa) lwyddo i gasglu swm anrhydeddus eleni eto sef £1,112! Y cyfanswm a gasglwyd oedd £1,613 a hefyd £750 (Banc Barclays Punt am bunt). Diolch yn fawr!

Val Wood, Warden y Ficer, oedd yn gyfrifol am Wasanaeth y Gair, sef y Boreuol Weddi ar ddydd Sul 21ain Awst. Soniodd am estyn help llaw i'n cyd-ddyn a dyfynnwyd o Lyfr Mathew, Pennod 25 Adnod 35-40: *Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bûm yn sychedig a rhoesoch ddiod imi, bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref, bûm yn noeth a rhoesoch ddillad amdanaf, bûm yn glaf ac ymwelsoch â mi, bûm yng ngharchar a daethoch ataf. Arglwydd gofynnant, "Pryd y'th welsom di'n newynog a'th borthi neu'n sychedig a rhoi diod i ti a phryd y'th welsom di'n ddieithr a'th gymryd i'n cartref neu'n noeth a rhoi dillad amdanat; Pryd y'th welsom di'n glaf neu yng ngharchar ac ymweld â thi?" A bydd y Brenin yn ateb, "Yn wir rwy'n dweud wrthych yn gymaint ag i chwi ei wneud i un o'r lleiaf o'r rhain fy mrodyr i mi y gwnaethoch."*

Cofiwn mewn gweddi holl aelodau'r Eglwys sydd heb fod yn teimlo'n hwylus ar hyn o bryd. Hefyd y rhai hynny sydd wedi colli un annwyl yn ddiweddar gan gynnwys teulu'r diweddar Mr Gwernon Thomas, Heol y Gaer, Llanybydder.

Ar gyfer trip eglwysi'r plwyf, gobeithir ymweld â'r Eglwys Gadeiriol yn Aberhonddu ddydd Sul 30ain o Hydref.



Tîm Hoci Llanybydder wedi iddynt ennill un a cholli dwy gêm mewn twrnamaint cyfeillgar a gynhaliwyd yn Llambed ym mis Medi.

**Clwb Hoci Llanybydder**

Bydd gêm gyntaf y Gynghrair i'r Clwb nos Iau, Hydref 6ed ar yr astro yn Llambed am 7.00 o'r gloch yn erbyn Clwb Hoci Caron. Mae'r gêm gartref nesa wedyn ddydd Sadwrn Hydref 29ain yn erbyn Bow Street.

Bydd y Tîm Dan 15 oed yn chwarae dydd Sul Tachwedd 13 am 1.00 o'r gloch ar yr astro yn Llambed.

Mae'r Clwb yn ymarfer bob nos Fercher ar yr astro yn Llambed am 6.30. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Mae'r Clwb Hoci yn cynnal noson Rasus Llygod a Barbeciw yn Y Clwb Rygbi yn Llambed nos Sadwrn Hydref 15fed. Dewch draw erbyn 6.00 a bydd y ras gyntaf am 7.00. Estynnir croeso cynnes i bawb.

**Dathlu**

Llongyfarchiadau mawr i Eddie ac Eirian, Gwargraig ar ddathlu eu Priodas Aur ddydd Sadwrn, Medi 17eg.

Ar yr un diwrnod priododd Meinir, ei merch â Andrew Pattie o'r Alban yn Eglwys Llanybydder.

Llongyfarchiadau mawr a hir oes.

**Ŵyr bach**

Llongyfarchiadau i Neal ac Ann Wilson, Glanrhyd ar ddod yn dad-cu a mam-gu i Ilan Alffi. Mab bach i Lowri a Carwyn yng Nghwmann. Hefyd i Doris Wilson, Heol y Gaer ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

**Diolch**

Dymuna Dora, Lynwen, Ann a'u teuluoedd ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli gŵr, tad, tad-cu a hen dad-cu annwyl.

**Pwyllgor Pentref**

Bydd y Pwyllgor Pentref yn cynnal Noson Calan Gaeaf yn y Llew Du ar y 28ain o Hydref am 6.30 o'r gloch. Cystadleuaeth am yr het wrach orau wedi ei haddurno.

Yna Noson Tân Gwyllt ar y 5ed o Dachwedd yn y Llew Du am 6.00 o'r gloch.

# Pencarreg

**Eisteddfodau**



Llongyfarchiadau i Cerys Angharad yn yr Eisteddfod canlynol:Eisteddfod Rhys Thomas James (Cyfyngedig), Unawd 6-9 oed - 3ydd, Llefaru 6-9 oed - 3ydd, Unawd ar unrhyw offeryn cerdd gan gynnwys y piano dan 12 oed - 2il yn canu'r delyn, Canu Emyn dan 12 oed - 5ed, Deuawd dan 12 oed - Cerys ag Alwena yn cael 2il; Eisteddfod Rhys Thomas James (Agored), Unawd 8-10 oed - 2il, Llefaru 8-10 oed - 2il, Alaw Werin dan 12 oed – 3ydd, Unawd Cerdd Dant dan 12 oed - 2il

Enillodd Cerys Angharad Darian Sialens Barhaol Ysgol Gynradd Ffynnonbedr i'r Disgybl Ysgol Gynradd uchaf ei marciau yn yr adran celf a chrefft. Yn ogystal enillodd y 'Rose Bowl' Sialens Barhaol er cof am Mrs Ray Morgan i'r cystadleuydd mwyaf addawol o dan 12 oed yn yr Adran Gerdd. Tipyn o lwyddiant iddi yn Eisteddfod Llambed.

Eisteddfod Tregaron - Unawd Bl 3 a 4 - 2il, Canu Emyn dan 12 0ed - 1af, Deuawd agored - Cerys ac Alwena'n cipio'r 3edd wobr.

Eisteddfod Felinfach - Canu 8 - 10 oed - 3ydd; Llefaru 8 - 10 oed - 2il, Canu'r Piano dan 12 oed - 3ydd, Deuawd Agored - Cerys ac Alwena'n cipio'r ail wobr.

Gallwch hysbysebu ym Mhapur Bro Clonc am gyn lleied â £12. Rydym yn dechrau casglu hysbysebion rhifyn Rhagfyr.


CERDDORIAETH LLAMBED 2016-17

**Elinor Bennett - Telyn**
2.30yp Dydd Sul 9fed Hydref
Neuadd y Celfyddydau, Y Drindod Dewi Sant Llambed. Bydd tocynnau ar gael ymlaen llaw oddi wrth Siop Blodau Cascade, Llambed.

**The Ashley John Long Trio Jazz**
7.30yp Dydd Gwener 21ain Hydref
Undeb y Myfyrwyr, Y Drindod Dewi Sant Llambed.

**Bute Clarinet Quartet**
2.30yp Dydd Sul 27ain Tachwedd
Yr Hen Neuadd, Y Drindod Dewi Sant Llambed.

**Graham Trew (bariton) & Susi Morrow (piano)**
2.30yp Dydd Sul 5ed Chwefror
Neuadd Brofana, Ffarmers.

**The Mavron Quartet**
2.30yp Dydd Sul 19eg Chwefror
Yr Hen Neuadd, Y Drindod Dewi Sant Llambed.

**The Piergorgio Ella Quartet**
Cerddoriaeth draddodiadol yr Eidal
7.30yp Dydd Mercher 12fed Ebrill
Undeb y Myfyrwyr, Y Drindod Dewi Sant Llambed.

Tocyn am un gyngerdd - £11 (consesiynau £9). Dau blentyn o dan 14 - mynediad yn rhad os yw oedolyn yn talu. Aelodau newydd - aelodaeth hanner pris - sef £25 (consesiynau £20), sydd yn cynnwys chwe chyngerdd. Am fwy o fanylion cysylltwch â Carol Cook 01558 650569, carolcook377@gmail.com, neu ewch i wefan y clwb www.lampetermusic.co.uk



LYN JONES
"At eich gwasanaeth"



- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
- Wedi yswirio'n llawn

01570 481029
Lakefield, Llanybydder, SA40 9RL

# Cwmann

**Ffair Ram**

Cynhaliwyd y 26ain Ffair Ram ar gae pentref Cwmann ar y 10fed Medi. Cafwyd diwrnod teg o ran tywydd a chefnogaeth dda.

Cafwyd gweithgareddau llwyddiannus yn ystod y dydd o dan lywyddiaeth Mrs Enid Davies, Bryneiddig gynt. Cafwyd araith bwrpasol ganddi hi a'i brawd Irfon Williams.

Cafwyd cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth yn yr adrannau isod ac arddangosfa arbennig o dda o hen beiriannau. Atyniad newydd eleni oedd y Daith Tractorau 5 milltir a gynhaliwyd yn ystod y bore.

Gwerthwyd y cynnyrch ar ddiwedd y dydd gan Ron Thomas a chodwyd swm sylweddol gyda chyfran o'r elw yn mynd tuag at Sefydliad Aren Cymru.

Dyma enillwyr y Gwobrau: Adran Fferm – Gareth Russell; Llysiau a Ffrwythau – Ann Davies; Blodau – Muriel McMillan; Coginio – Sioned Russell; Cyffeithiau / Gwinoedd – Helen Roberts; Ysgol Feithrin – Esther Llwyd; Dosbarth Derbyn – Cai Davies; Blwyddyn 1 a 2 – Ellie Gregson; Blwyddyn 3 a 4 – Casi Gregson; Blwyddyn 5 a 6 – Mared Jones ac Elen Jones; Ysgol Uwchradd – Morgan Lewis; Arlunwaith a Ffotos – Meinir Evans; Crefftau Cefn Gwlad – Gwyn Williams; Gwaith Llaw – Eirlys Jones; Adran y Defaid – Tomos Jones, Felindre; Cwpan Sialens Felindre Uchaf – Ann Davies; Cwpan Sialens Felindre Isaf – Aled Roberts; Cwpan Sialens Wyn a Mary – Dewi, Blaenbinderndyn; Cwpan Sialens Eric Harries – Aled Roberts; Cwpan Sialens Teulu Hendai – Dewi, Blaenbinderdyn; Cwpan Sialens Dalgety – Aled Roberts; Cwpan Sialens Bronwydd – Helen Roberts; Cwpan Sialens Dilys Godfrey – Eirlys Jones.

Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb a fu'n helpu ac am bob cefnogaeth. Gellir gweld lluniau'r dydd ar wefan y ffair: www.ffairram.btck.co.uk

**Neuadd Sant Iago, Cwmann**

Mis Medi 1. Tony Lewis, Brynawel, Cwmann, 7. 2. Llinos Jones, Araul, Cwmann, 17. 3. W J Mason, 21 Treherbert, Cwmann,130. 4. Wendy Mason, 35 Heol Hathren, Cwmann, 103. 5. D J Evans, Blaenbidernyn Isaf, Pencarreg, 135. 6. Fiona Jones, Llysteifi, Cwmann, 52. 7. Bethan Lewis, 18 Heol Hathren, Cwmann, 54.

**Ysgol Carreg Hirfaen**

Enillwyd tlws Beca Mai Roberts, sef gwobr a gyflwynir yn flynyddol am gyfraniad gwerthfawr i fywyd chwaraeon Ysgol Carreg Hirfaen, gan bedwar o'n disgyblion Blwyddyn 6 am 2016. Cystadlodd y pedwar yn frwd ac yn llwyddiannus mewn amryw o gampau tra yn yr ysgol gan lwyddo ar lefel sirol a chenedlaethol. Gwelir y pedwar yn y llun o'r chwith i'r dde; sef Seren James, Mali Jones, Iestyn Plant a Sion Aled Evans. Llongyfarchiadau mawr iddynt.



Sara Elan Jones, Araul yn ennill y darian am lefaru 12-15 oed yn Eisteddfod Llanbed.

Carai plant a staff Ysgol Carreg Hirfaen ddymuno'n dda i'r disgyblion hynny sydd yn gadael am yr Ysgol Uwchradd ddechrau mis Medi. Yn gadael eleni mae Seren James, Mali Jones, Iestyn Plant a Sion Aled Evans. Diolch yn fawr i'r pedwar ohonoch am eich gwaith caled, eich ymroddiad ac am yr hwyl a gawsom tros y blynyddoedd diwethaf. Pob lwc i chi yn Ysgol Bro Pedr.

Bu disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yr ysgol yn ymarfer eu sgiliau mathemateg a daearyddiaeth trwy gyfeiriannu ar draws mynyddoedd Ffair Rhos yn ddiweddar. Dechreuwyd ar y daith ger Llyn Teifi a rhaid oedd dilyn map a chwmpawd yr holl ffordd ar draws y mynydd nes cyrraedd mynachlog Ystrad Fflur.

Fel rhan o'n gweithgareddau anturus am y tymor, cafodd disgyblion dosbarth Miss Lewis ddiwrnod penigamp yn ddiweddar yn ymarfer eu sgiliau beicio mynydd ar lwybrau garw Canolfan Feicio Bwlch Nant yr Arian. Tyfodd pawb mewn hyder yn ystod y diwrnod a braf gallu dweud bod pob un wedi dychwelyd adref yn ddiogel heb unrhyw anffawd.



Dosbarth Miss Lewis Ysgol Carreg Hirfaen yn ymarfer eu sgiliau beicio.

Bu tîm trawsgwlad yr ysgol yn llwyddiannus iawn ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ystod y mis. Roedd dros gant a hanner o blant ym mhob ras. Cafodd y merched lwyddiant arbennig gyda Casi Gregson o flwyddyn 4 yn cipio'r 4ydd safle a Gwenllian Llwyd o flwyddyn 6 yn cipio'r 6ed safle. Cipiodd Osian Elis o flwyddyn 6 y 7fed safle yn ei ras ef.

Hefyd yn llwyddo i orffen y ras mewn amser a safle gwych roedd Osian Jones, Ifan Jones, Hari Jones, Tudur Jones, Christopher Readwin, Tomos Green, Rhun Davies, Roland Weedon, Ryan Jones, Seren Ling, Marged Jones a Jessica Jones.



Aelodau Côr Merched Corisma yn cyflwyno siec o £1,200, sef elw'r Gymanfa a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf i gynrychiolwyr elusen Hafal Ceredigion er mwyn gwella'u cyfleusterau yn eu canolfan yn Aberystwyth.





Dafydd Jones yn cyflwyno tarian her Daniel a Dafydd Jones Hendai i'r tîm pêl droed bechgyn buddugol, sef Carreg Hirfaen, yng Nghystadleuaeth Bêl-Droed y Ffair Haf. Diolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion a gefnogodd y Ffair Haf eleni eto ac i aelodau'r PTA am ei threfnu.

Mae plant blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur iawn yr hanner tymor yma yn astudio bywyd y Celtiaid. Fel rhan o'r gwaith aethom ar daith i Gastell Henllys. Cafodd y plant gyfle i greu a choginio bara, peintio gwynebau a gwehyddu basgedi. Cawsom lawer o hwyl yn dychmygu byw mewn tŷ crwn.

Cawsom ddiwrnod bendigedig yn dathlu pen-blwydd Roald Dahl yn 100 mlwydd oed trwy wisgo i fyny fel un o'i gymeriadau. Coginiodd y plant gacennau blasus a chawsom barti a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol i ddathlu.

# Cwmann

**Priodas Ruddem**

Dathlodd Lloyd a Heledd Jones, Penrhos eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Dymuniadau gorau iddynt eu dau.

**Mab a Wŷr bach**

Llongyfarchiadau i Lowri a Carwyn Gregson, Gwynfryn ar enedigaeth mab bach, Ilan Alffi ar Fedi 22ain. Hefyd i Bryn a Helena Gregson, Werna ar gael ŵyr bach arall. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

**Pen-blwyddi arbennig**

Dathlodd Mrs Bessie Lloyd, 14 Heol Hathren ei phen-blwydd yn 90oed a Joan Davies, 23 Cwrt Deri yn 70oed. Gobeithio eich bod eich dwy wedi mwynhau'r dathlu.

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau mawr i Danny ac Ann Davies, Brynteifi ar ddathlu eu Priodas Aur ar Hydref 1af. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r dathlu.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Meinir Jones, Hendai ar raddio yn ddiweddar gyda Meistr Mewn Gwyddoniaeth mewn Ymarfer Uwch Mewn Gofal Iechyd. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd fel Ymarferydd Nyrsio Uwch yn Ysbyty Glangwili.

**Diolch**

Dymuna Joan Davies, 23 Cwrt Deri ddiolch i bawb a ddanfonodd gardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 70oed.

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau i Evan a Brenda Morgan, Gellideg ar ddathlu eu Priodas Aur. Pob dymuniad da a iechyd eto am flynyddoedd.

**Sefydliad y Merched Cwmann**

Ar nos Lun y 1af o Fedi cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor. Croesawodd Gwen bawb a llongyfarchodd Brenda ac Ifan ar ddathlu eu Priodas Aur.

Cyflwynodd ein gwesteion am y noson sef Meinir Davies o Bonterwyd ac Angharad ei merch a fu'n dangos eu crefftwaith gwnïo o bob math. Yr oedd eu gwaith o safon uchel iawn ac yn wledd i'r llygad. Maent wedi cystadlu dros y blynyddoedd ac wedi ennill mewn cystadlaethau yn cynnwys i Sioe Genedlaethol yn Llanelwedd.

Diolchodd Gwynfil iddynt am noson arbenning o ddiddorol a dymunodd bob llwyddiant i Angharad sydd ar ddechrau astudio yn Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 3ydd o Hydref yn Y Goedwig a'r wraig wadd fydd Yvonne Evans o S4C.

**Cydymdeimlo**

Colled fawr i ardal eang oedd clywed am farwolaeth David Morgan, Haulfryn yn 87 oed. Bu yn gweithio yn siop Daniel Davies, Llambed am flynyddoedd lawer ac roedd yn aelod ffyddlon iawn o Gapel Brondeifi lle bu yn ddeiacon ac yn ysgrifennydd ar sawl pwyllgor o fewn y Capel. Ym Mrondeifi fu'r angladd ac yno y daearwyd ei weddillion yn y fynwent. Cydymdeimlir gyda'i briod Eileen a'r meibion a'u teuluoedd yn eu colled.

**Enillwyr Misol Clwb 225**

1. Mr a Mrs D J Davies, Wernfraith, Cwmann, 232. 2 Llion Herbert, 4 Cysgod y Coed, Cwmann, 191. 3. Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 110. 4. Dafydd Jones, Bara Gwalia, Llanybydder, 111. 5. Wyn a Meinir Jones, Hendai, Cwmann,179. 6. Sid Mason, Bryndolau, Pumsaint,141. 7. Donald a Helen Thomas, Ty Hathren, Cwmann, 43. 8. Terry Davies, Murmur Teify, Cwmann,71. 9. Neville ac Eleanor Davies, Pleasant View, Llambed, 128. 10. Ann Roberts, Brynview, Cwmann, 68.

**Diolch**

Dymuna Evan a Brenda, Gelli Deg ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

**Dathlu Deg Corisma**

Do, aeth dechrau blwyddyn dathlu deg blynedd o fodolaeth Corisma yn arbennig o dda. Lansiwyd Cryno Ddisg gynta'r côr ac fe werthwyd bron bob copi o fewn dim amser. Rhaid oedd felly meddwl am rhyw ddigwyddiad arbennig i gloi y ddegfed blynedd - ac o ganlyniad i briodas Lowri a Gwyn cawsom weledigaeth! Ymddiheurodd perchnogion y marcî yn gynnar iawn yn y trefniadau na fyddai'n bosib iddynt dynnu'r babell enfawr i lawr am dridie wedi'r briodas gan fod ganddynt tair priodas y penwythnos olaf ym mis Gorffennaf. Beth arall fyddai'n bosib i wneud gyda phabell fawr smart ar bnawn dydd Sul ond trefnu Gymanfa - 'roedd y seddau, toiledau a'r byntin i gyd yno yn barod - a'r mwyafrif o aelodau Corisma yn addo o flaen llaw na fyddent ar wylie ar y dyddiad yna, felly dim ond trefnu rhaglen a chwilio arweinyddion oedd angen, a byddai popeth yn ei le! Fel y gwyddoch i gyd erbyn hyn mae yna ddigon o ferched talentog o fewn y côr felly digon hawdd fu dod o hyd i dair arweinyddes a dwy gyfeilyddes i gadw trefn ar y canu - a dyna ni'n barod! Cytunwyd i gynnig paned a chacen i bawb yn dilyn yr holl ganu er mwyn rhoi cyfle i gefnogwyr y côr ymuno yn y dathlu.

Wedi ymarfer bach ganol dydd Sul bu aelodau'r côr yn aros yn eiddgar i weld a fydde ychydig o bobl yn mentro troi at rhewl Gellan i ymuno yn y dathlu. 'Roedd yna ryddhad mawr wrth weld car ar ôl car yn troi lan lôn Llysbarcud yn barod i gymryd rhan yn y Gymanfa. Rhaid oedd gosod rhagor o stolion allan ar hast i wneud yn siŵr fod digon o le i bawb eistedd yn gyffyrddus! O dan arweiniad mentrus Carys, Rhian a Delyth, a dwylo ystwyth Lois ac Alwena cawsom wledd o ganu a hyfryd oedd gweld aelodau unigol o Adran a Aelwyd Llanbed yn ymuno yn y gwasanaeth. Gwnaeth aelodau Corisma ddiddori'r gynulleidfa gyda caneuon adnabyddus a chyda balchder mawr gwnaeth Lena cyflwyno ei brawd Huw a'i fab Rhys yn canu gyda'i gilydd am y tro cyntaf. Mae Huw yn aelod o Gôr Meibion lan yn Carslilse a Rhys yn perthyn i Gôr Cymry Llundain - felly 'roedd hi'n emosiynol iawn clywed y ddau yn canu deuawd, yn enwedig gan fod llawer o aelodau'r teulu wedi aros draw i gefnogi'r gymanfa.

Penderfynodd y côr gyflwyno elw'r prynhawn i elusen Hafal sy'n cefnogi unigolion ag anawsterau meddyliol yng Ngheredigion a phob rhan o Gymru. Ac mor falch oeddent i weld Sioned Evans, gynt o Felinfach, yn rhannu ei phrofiadau o'r cymorth iddi gael gyda'r elusen yma yn ystod ei bywyd. Siaradodd o'r galon - a hynny heb yr un darn o bapur o'i blaen, ac er yn amlwg o dan deimlad 'roedd yn awyddus iawn i ddiolch i bawb am gefnogi'r fenter.

Wrth i'r haul dywynnu gwnaeth pawb fwynhau paned a chacennau wedi eu paratoi yn flasus iawn gan Maggie a Avril o gaffi Sosban a diolch o waelod canol i'r ddwy am wneud y cyfan yn rhad ac am ddim er mwyn cyfrannu at yr elusen. Pleser yw cofnodi bod yr orig fach yma, ynghyd â chyfraniadau wrth unigolion oedd yn methu bod yn bresennol, wedi codi swm anrhydeddus tu hwnt o £1,200 tuag at elusen Hafal. Ar ran aelodau Corisma a theulu estynedig Llysbarcud diolch i bob unigolyn am bob cefnogaeth a gafwyd i gloi dathlu'r deg yn llwyddiannus.



Disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yr Ysgol Carreg Hirfaen yn ymarfer eu sgiliau mathemateg a daearyddiaeth trwy gyfeiriannu ar draws mynyddoedd Ffair Rhos yn ddiweddar.



Gwenllian Llwyd, Osian Elis a Casi Gregson Ysgol Carreg Hirfaen a fu'n llwyddiannus ym Mhencampwriaeth Trawsgwlad Sir Gaerfyrddin.

# Sarn Helen

**Ironman Cymru**



Ar fore Sul y deunawfed o Fedi, cynhaliwyd Ironman Cymru ar draeth Dinbych y Pysgod a'r eiliad oedd Kevin Hughes a David Thomas wedi bod yn aros amdano ers rhyw flwyddyn. Roedd y tywydd yn ffafriol wrth ddechrau'r sialens o nofio 2.4 milltir. Llwyddodd Thomas i gamu allan o'r dŵr mewn 1awr 5 munud a Hughes yn gorffen mewn 1 awr 12 munud. Roedd y cwrs beicio yn 112 milltir gyda Hughes yn gorffen mewn 6 awr 28 munud a Thomas mewn 6 awr 34 munud. Yna rhedeg marathon, 26.2 milltir a hynny dros 4 lap. Gorffennodd Kevin Hughes y marathon mewn 3 awr 58 munud gydag amser terfynol o 11 awr 57 munud, a David Thomas yn gorffen y marathon mewn 4 awr 12 munud ac amser terfynol o 12 awr 11 munud. Llongyfarchiadau gwresog iddynt! Llongyfarchiadau i dri arall o ardal Llambed a gymerodd rhan yn y ras sef Jonathan Evans, Llanfair Fach a orffennodd mewn 13 awr 9 munud, Aled Morgan 13 awr 15 munud a Sion Mason Evans 14 awr 29 munud.

**Hanner Marathon Pumsaint**

Eleni oedd y tro cynaf i Sion Price redeg y ras ac fe lwyddodd i guro amser buddugol llynedd mewn 8 munud wrth iddo darannu'n bencampwr dros y llinell derfyn mewn 1 awr 25 munud 30 eiliad, sy'n amser anhygoel o ystyried bod cyfanswm y dringfeydd yn 2000 troedfedd. Llwyddodd Seth Kennard, Saffron Striders, 1.25.48 (2il dynion agored), Gareth Payne 1.28.34 (1af dynion dros 40), Daniel Hooper 1.33.16 (2il dynion dros 40) a Simon Hall 1.33.42 (3ydd dynion agored) ill tri o Sarn Helen hefyd guro amser buddugol Payne y llynedd o 1.33.52. Glyn Price orffenodd yn 3ydd dynion dros 40 mewn 1.34.50. Yng nghategori'r dynion dros 50, yr enillydd oedd Rob Falconer, Harriers Abertawe mewn 1.43.43, yn ail oedd Calvin Williams, Sarn Helen mewn 1.45.50 a Mark Terry, Trots yn 3ydd mewn 1.51.32. Tony Hall cipiodd y categori dros 60 mewn 1.48.51 gyda Murray Kisbee hefyd o Sarn Helen yn dynn ar ei sodlau mewn 1.49.38 a Gary Gunner, Croft Ambrey yn 3ydd mewn 2.04.01. Heddwen Daniel, Cardiff AAC enillodd ras y merched mewn 1.46.30, gyda Dee Jolly, Sarn Helen yn 2il merched agored mewn 1.52.03 gyda'r 3ydd merched agored yn mynd i Jana Weidemann mewn 2.10.51. Llinos Jones, Amman Valley oedd yr ail ferch i groesi'r llinell derfyn mewn 1.46.40 a hi oedd yn fuddugol yng nghategori'r merched dros 35, gyda'r ail yn yr un categori yn mynd i Wendy Price mewn 1.51 gydag Eleri Rivers, Sarn Helen yn 3ydd mewn 1.57.34. Jane Wilkins o glwb rhedeg Aberteifi enillodd i ferched dros 45 mewn 2.08.39 gyda Delyth Crimes, Sarn Helen yn 2il mewn 2.23.03 a Dawn Kenwright, Sarn Helen yn ennill categori y merched dros 55 mewn 2.05.29. Mae canlyniadau eraill tîm Sarn Helen fel a ganlyn: Andrew Davis 1.40.32, Michael Davies 1.44.55, Steven Holmes 1.48.37, George Eadon 1.52.26, Mick Taylor 1.55.20, Mitch Readwin 2.06.50 ac Emma Gray 3.18.22. Cynhaliwyd ras 10k hefyd. Stephen Corbishley, Rossendale Harriers oedd yn fuddugol mewn 43.12 a'r ferch gyntaf oedd Alison Terry, Trots mewn 1.13.23. Y ferch lleol gyntaf i groesi'r llinell derfyn oedd Jane Holmes, Sarn Helen mewn 1.17.39 a'r dyn lleol cyntaf oedd Eirian Davies, Llangadog mewn 1.25.01. Yn cynrychiolu Sarn Helen yn y ras hon oedd Thomas Willoughby 49.53, Tomos Morgans 50.03, Joseff Thomas 1.03.13 ac Emma Davies 1.25.01. Penderfynodd trefnydd y ras Carwyn Davies, Sarn Helen, gyfrannu elw'r ras ynghyd a threfnu raffl fawr er mwyn codi arian tuag at uned brofedigaeth ward Dinefwr, Ysbyty Glangwili a llwyddwyd i godi elw anhygoel o dros £4000.

**Richard Marks yn serennu eto.**

Mae Richard Marks wedi llwyddo i gyrraedd y brig unwaith eto wrth gystadlu yng nghystadleuaeth y meistri ar y trac yn cynnwys tri cyfarfod. Bu dau gystadleuaeth yn Abertawe lle enillodd y ras 1500m i ddynion dros 60 gan wneud yr un peth yn y cyfarfod ola a hynny mewn amser anhygoel o 5 munud 10 eiliad. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod yn Aberhonddu lle rhedodd 3000metr mewn 10.57 a'i osododd yn y safle cyntaf, o flaen rhai dynion 25 mlynedd yn iau nag ef! Bu hefyd yn cynrychioli Cymru yn ras 10k Caerdydd yn ddiweddar mewn amser arbennig o 38.37 gan ennill medal arian i ddynion dros 65. Daliwch ati Richard!




Ras Beca

**Canlyniadau eraill**

Roedd penwythnos Gŵyl y banc mis Awst yn un prysur iawn yng nghalendr Sarn Helen gyda nifer o rasus yn denu'r rhedwyr i wahanol gyfeiriadau. Dechreuodd y cyffro gyda ras eiconic "Beca" Y cyntaf i groesi'r llinell i glwb Sarn Helen oedd Simon Hall a hynny yn y 6ed safle mewn 42.16 tra bod Glyn Price yn dynn ar ei sodlau mewn 42.22 (2il dynion 40) ac Andrew Abbott 42.31 (3ydd dynion 40). Calvin Williams mewn 46.38 (3ydd dynion 50), Dee Jolly oedd yr unig ferch o'r clwb i redeg ac fe orffennodd mewn 49.17 (3ydd merch agored), Mick Taylor 52.36, Huw Price 54.41 a Gareth Jones 65.28. Y diwrnod canlynol, cynhaliwyd rasus newydd sbon yn Arberth, o'r enw "Narberth Nobbler" trwy lwybrau'r goedwig gyda Simon Hall yn ennill y ras 10k a'i bartner Dee Jolly yn 3ydd ac yn gyntaf yn ras y merched. Rhedodd Gareth Payne ras dda yn yr hanner marathon gan orffen yn gryf yn yr ail safle mewn 1.34 a Tony Hall yn gorffen mewn 1.57 er gwaetha iddo droi ei bigwrn. Ar yr un diwrnod, cynhaliwyd hanner marathon Pont Hafren gyda Ken Caulkett yn rhedeg ras arbennig gan orffen yn 11eg ac yn 7fed dyn agored gyda dros 2000 o redwyr mewn amser o 1.21. Rhedodd Mitchell Readwin mewn 1.54, ac er fod Jenny Caulkett yn anhapus gyda'i pherfformiad wrth iddi gael anaf yn ei choes, fe wnaeth hi dal orffen mewn 2.17 a Nicola Higgs yn gorffen mewn 2.21. Yn agosach i adre ac yn cloi rasus penwythnos gŵyl y banc oedd 10k San Cler. Sion Price oedd unig aelod y clwb i fynychu'r ras hon ac er ei fod heb ddychwelyd i ffitrwydd llawn wedi iddo dorri ei droed, fe wnaeth lwyddo i orffen yn bedwerydd mewn 36.11. Ar ddydd Sul y 4ydd o fedi, aeth Dawn Kenwright i gystadlu mewn ras 10k newydd yn Coed y Brenin gan ennill categori y menywod dros 60 mewn 57.37. Ymhellach i'r dwyrain ar yr un diwrnod, cynhaliwyd ras "Source of the Severn" gan Maldwyn Harriers. Dyma'r math o ras y mae Calvin Williams wrth ei fodd yn cymryd rhan ynddi wrth iddo redeg am rhyw 9 milltir drwy lwybrau'r goedwig tuag at tarddiad yr afon Hafren. Llwyddodd Calvin i redeg ras dda gan orffen yn ddeuddegfed ac yn gyntaf i ddynion dros 50 mewn 1 awr 10 munud. Ar yr un diwrnod hefyd, cynhaliwyd 10k Emlyn gyda pedwar aelod o'r clwb yn rhedeg. Fe wnaeth Sion Price redeg ras arbennig gan gymeryd bron dwy funud oddi ar ei amser blaenorol ond fe gollodd allan ar dorri record y cwrs o ddwy eiliad gyda'i amser o 36.50. Enillodd Glyn Price categori'r dynion dros 40 mewn 42.10 gydag Aneurin James yn gorffen mewn 1 awr 3 munud ac Helen Willoughby yn ennill ras y merched mewn 50.27. Ar Fedi'r 11eg, aeth Jane a Steven Holmes i gystadlu yn Hanner marathon New Forest, dwy flynedd wedi i Jane dderbyn ei thriniaeth olaf o gemotherapi er iddi gael llawdriniaeth wedi hyn i dynnu rhan o'i ysgyfaint, ond nid yw hyn erioed wedi cael y gorau ohoni wrth iddi ddal ati i redeg gan ysbrydoli pawb. Gorffennodd Jane mewn 2 awr 27, gyda'i gwr Steven yn gorffen mewn 1 awr 33. Hefyd ar yr un diwrnod, roedd strydoedd Caerdydd yn brysurach na'r arfer wrth i filoedd gymeryd rhan mewn ras 10k, ac yn ogystal a Richard Marks roedd 4 aelod arall o'r clwb yn rhedeg. Rhedodd George Eadon 43.33, Martin Darby 47.31, Joseff Thomas yn rhedeg ei ras 10k swyddogol gyntaf mewn 52.43 ac Helen Willoughby 46.39. Cynhaliwyd ras flynyddol 10k Abertawe ar Fedi'r 18fed sy'n denu miloedd o redwyr ac fe lwyddodd Ken Caulkett i orffen yn y 50 uchaf mewn amser arbennig o 35.39, gyda'i wraig Jenny yn rhedeg ei amser gorau o 51.36.

# Sarn Helen

**Canlyniadau'r Plant**

Dydd Sadwrn, Awst 27ain, bu rhai aelodau iau y clwb yn rhedeg Ras Beca, sef ras filltir ar hyd corsydd a thir anwastad.  Cafodd Alaw Jones ras arbennig a hi oedd y cyntaf i groesi'r llinell derfyn yn y ras dan 11oed gyda Rhodri Gregson yn dilyn yn agos iawn (3ydd bachgen) ac yna Sean Wood.  Yn y ras dan 8oed, gorffennodd Nia Williams yn 3ydd merch gyda Charlie Wood hefyd yn rhedeg ras dda.  Mae Jac Rees yn dilyn ôl traed ei dad, Dorian,  gyda'i hoffter at feicio a rhedeg, ond wrth redeg y bu'n llwyddiannus y tro hyn wrth iddo ennill ras hwyl Pontsian gan redeg 1 milltir mewn 7.31.



Sean a Charlie Wood

Cynhaliwyd ras filltir i blant cynradd ac uwchradd ar hyd llwybrau'r goedwig ym Mhumsaint ar yr un diwrnod â'r hanner marathon.  Enillydd y ras a'r 1af bechgyn cynradd oedd Rhys Williams 6.01, gyda'r 2il fachgen cynradd yn mynd i Rhodri Gregson 6.29.  Y ferch gynradd gyntaf i groesi'r llinell oedd Seren Davies, Carmarthen Harriers, mewn 6.35 a'r ail yn mynd i Gwenllian Llwyd 7.03. Daniel Willoughby orffennodd gyntaf o'r bechgyn uwchradd mewn 6.06 gyda Gwion Payne yn ail agos iawn mewn 6.07.  Y ferch uwchradd gyntaf oedd Alaw Jones mewn 6.31 a Chloe Lewis yn 2il mewn 8.09.  Cafwyd perfformiadau arbennig gan aelodau eraill Sarn Helen: Daniel Morgans 6.11, Cai Allan 6.35, Jamie Jones 6.55, Harri Rivers 7.04, Casi Gregson 7.24, Beca Jones 7.37, Nia Williams 7.43, Delun Davies 9.35 ac Elin Evans 10.12.  Ar yr un diwrnod, bu Sean a Charlie Wood yn rhedeg mewn ras yn Abertawe, gyda Sean yn rhedeg 3k mewn 16.17 a Charlie yn rhedeg 1k mewn 5.07. Da iawn nhw.

# Colofn y C.Ff.I.

**Ceredigion**

Gyda'r haf wedi gorffen mae ond yn golygu un peth - bod blwyddyn newydd y C.Ff.I. yn ail gychwyn ac i atgoffa pawb i ymaelodi unwaith yn rhagor!

Yn ystod yr haf buom ar draws y sir yn hyrwyddo'r mudiad. Gwelwyd ein stondin yn sioeau amaethyddol Aberystwyth, Aberteifi a Llambed ac hefyd yn Niwrnod Agored Llanerchaeron.

Ar Ddydd Gwener 16eg o Fedi bu trip Materion Gwledig y Sir yn ymweld â 'Genus' yn Rhuthun.

Bu cynrychiolaeth gref o'r Sir yng Nghinio Dathlu C.Ff.I. Cymru yn 80 oed nos Sadwrn 17eg o Fedi. Cynhaliwyd y wledd mewn 'marquee' y ar dir Llanerchaeron.

Yn ein cyfarfod cyffredinol blynyddol a gynhaliwyd yn Neuadd Santes Ursula yn Llangwyryfon etholwyd Mererid Davies, Pontsian fel Cadeirydd y Sir, a Mererid Jones, Felinfach, fel Is-Gadeirydd y Sir am y flwyddyn i ddod. Etholwyd Geraint Morgan yn Llywydd y Sir ac Euros Davies yn Is-Lywydd.

Enillwyr Clwb 200: Mis Awst - 1af - Teulu Hafan, Llanddeiniol; 2il - Mrs H M Davies, Maesronw, Bangor Teifi, Llandysul; 3ydd - Helen Hopkins, Brynwichell, Blaenpennal.  Mis Medi - 1af -  Angela Evans, Argoed Farm, Tregaron; 2il - Gareth Lloyd, Hafancletwr, Talgarreg; 3ydd - Rhian Haf Evans, Glanyrafon, Talybont.

Digwyddiadau sydd i ddod: 5ed Hydref – Hyfforddiant Barnu Gwartheg Godro – Gwarffynnon, Llambed; 8fed Hydref – Diwrnod Maes y Sir – IBERS, Aberystwyth; 19eg Hydref – Pwyllgor Gwaith ac Is-bwyllgorau'r Sir & Noson Hyrwyddo Teithiau Tramor; 27 & 29 Hydref – Eisteddfod y Sir - Pafiliwn Pontrhydfendigaid; 6ed Tachwedd – Cyfweliadau Teithiau Tramor C.Ff.I. Cymru; 9fed Tachwedd – Hyfforddiant Barnu Carcas – Dunbia, Llanybydder; 16eg Tachwedd - Pwyllgor Gwaith ac Is-bwyllgorau'r Sir; 19eg Tachwedd - Eisteddfod C.Ff.I. Cymru – Neuadd Brangwyn, Abertawe; 25ain Tachwedd – Chwaraeon Dan Do – Llanddewi Brefi; 28 & 29 Tachwedd – Ffair Aeaf; 4ydd Rhagfyr – Siarad Cyhoeddus Saesneg; 28ain Rhagfyr – Dawns y Frenhines a'r Ffermwr Ifanc - Pier Pressure Aberystwyth.

# Adloniant

Theatr FELINFACH

Mae'i gered 'ma yn Theatr Felinfach! Anodd credu bod cymaint o fwrlwm mewn lle bach gwledig fel hyn.

Mae Dwynwen, ein Pennaeth newydd ddychwelyd o Donostia San Sebastian, Dinas Diwylliant 2016 yn gwerthuso Gŵyl TOSTA.  Bu Gŵyl TOSTA yn ymweld â Chymru ac yn benodol Theatr Felinfach ym mis Mehefin. Gŵyl a oedd yn dathlu iaith a diwylliant saith o wledydd Celtaidd ac Ewropeaidd oedd TOSTA -  Gwlad y Basg, Galisia, Yr Alban, Iwerddon, Fryslân, Cernyw a Chymru.

Rydym eisoes wedi cael noson wych o gomedi yma ar ddechrau Medi – yn trafod pob math o bethau o Brexit I'r Henoed! Lein-yp gwych a'r cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd gaeth y llen lawr ar sioe un dyn Oh Hello! oedd yn portreadu bywyd a hanes yr actor enwog o'r ffilmiau 'Carry On' Charles Hawtrey. Diolch i Jamie Rees am ei berfformiad caboledig o'r cymeriad cymhleth. Fe gafodd y sioe adolygiadau gwych a chroeso rhyfeddol yng Ngŵyl Caeredin.

Gyda normalrwydd y calendr ysgol wedi ail-ddechrau. . .  mae amserlen brysur y gweithgareddau cyfranogol i gyd yn ail ddechrau hefyd.


Dramatic! Clwb drama i ddisgyblion 7-11oed.  Clwb Dawns i blant 3 - 6 oed. Grŵp Dawns Hip-Hop i bobl ifanc 11-16 oed.  Tic-Toc – Sesiynau stori, dawns a chân i blant 0-3 oed a'u rhieni.  Cyfle gwych i greu ffrindiau newydd, datblygu sgiliau perfformio, drama, a chael lot fawr o hwyl a sbri!

Wrth gwrs, mae amser Panto Dwl y Dolig yn agosáu hefyd! Oes 'da chi neu ydych chi'n gwybod am rywun sydd â diddordeb mewn actio? Sy'n ysu i fod ar lwyfan? Ni'n recriwtio!

Cysylltwch â Ffion Medi, neu Lowri Briddon am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r gweithgareddau uchod ar 01570 470697.

Beth Sy' 'Mlaen yn y Theatr? Arddangosfa o waith yr artist Luned Rhys Parri tan ddiwedd Rhagfyr. 13/10/16 – Two – Comedi gan Jim Cartright wedi ei lleoli mewn tafarn yn Ne Cymru (Cynhyrchiad Saesneg).  15/10/16 – Diwrnod Shwmae Sumae – diwrnod dathlu'r Gymraeg.  21-22/10/16 – Yr Ŵyl Ddrama mewn cydweithrediad â Chwmni Cydweithredol Troedyrhiw.  4/11/16 – Cyngerdd gydag enillydd y Rhuban Glas 2016, Kees Huysmans, Côr Meibion Cwmann a Robin Lyn.  3-10/12/16 – Panto Dwl y 'Dolig.


Mwnci ffwnci



Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
**Sioned Green a Mared Jones**
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
01570 423135
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

*Gwasanaethau Coed Teifi*
*Tree Services*



Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfynbris am ddim
*Coed tân ar werth*
Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797
**D. Lloyd a'i Feibion**
Glanrwyth, Pumsaint,
Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440
**Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu a ffensio o bob math Glo caled a glo meddal o'r ansawdd gorau**

HURIO HEN LESTRI
Ar gyfer unrhyw achlysur




Te prynhawn
Priodas
Parti



Dathliad arbennig
Rhifau cyswllt
01570 480822 neu
07890 340958
nans1@hotmail.co.uk



# Llanbedr Pont Steffan



Cyntaf ar yr adrodd Bl 5 a 6 yn Eisteddfod Tregaron oedd Ifan Meredith, Llambed.



Cyflwynwyd siec o £8,000 i Liz Andrews, Cyfarwyddwr Elusen Ymchwil Cancr Cymru gan Tomos, Osian ac Efa.   Codwyd yr arian yn dilyn taith tractorau, ocsiwn a raffl ym mis Gorffennaf eleni er cof am Wyn a Bethan Jones, Maes-y- Berllan, Felindre. Yn y llun hefyd mae Helen a Carol Davies cynrychiolwyr lleol elusen Ymchwil Cancr Cymru. Yn anffodus methodd Edna Williams, cynrychiolydd banc yr HSBC fod yn bresennol yn y llun ond diolch i HSBC am eu cyfraniad hael. Diolch i bawb am eu cyfraniadau caredig ac am gefnogi'r digwyddiad.

**Merched y Wawr**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn Festri Shiloh ar Nos Lun 12fed o Fedi.  Yn absenoldeb ein Llywydd, Elin Williams, llywyddwyd y noson gan Gillian Jones mewn ffordd hwylus dros ben.

Estynnodd groeso i bawb ac yn enwedig i ddwy aelod newydd sef Gwenda Davies a'i chwaer Elsi Jones. Llongyfarchodd Brenda Morgan a'i gŵr Evan ar ddathlu eu Priodas Aur. Cyfeiriodd at lwyddiant y sgets a'r parti llefaru yn Eisteddfod Llanbed. Soniodd hefyd bod ymgyrch "Ategolion y Galon" yn genedlaethol wedi cyrraedd y swm anrhydeddus o £40,000. Gwych! Cyflwynodd Eryl y fantolen ariannol flynyddol a diolchwyd yn gynnes i Derek Evans am ei archwilio. Bydd Verina ac Eryl yn ymweld â Hafandeg y mis yma ar ran y gangen.

Y gŵr gwadd am y noson oedd Y Parchedig Goronwy Evans. Cafwyd orig bleserus yn gwrando arno yn siarad ar y teitl "Tramps". Mae Goronwy a'i wraig Bet wedi ysgrifennu llyfr am y tramps a fydd yn cael ei lansio ddechrau mis Hydref. Edrychwn ymlaen i'w ddarllen. Diolchwyd am sgwrs ddiddorol gan Gwyneth. Janet a Dorothy fu'n paratoi y te ac enillwyd y raffl misol gan Eryl.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 10fed o Hydref pan ddisgwylir y Doctor Llinos Roberts atom i drafod "Iechyd Merched". Bydd croeso cynnes i aelodau newydd a fyddai'n hoffi ymuno â ni.

**Clwb Cerdd Llambed**



Bydd cyngerdd agoriadol tymor newydd Clwb  Cerdd Lambed eleni yn achlysur arbennig. Bydd y delynores fyd-enwog Elinor Bennett yn perfformio yn Neuadd y Celfyddydau, Y Drindod Dewi Sant, Llambed ddydd Sul, 9fed Hydref. Mae Elinor wedi  bod yn ffrind ffyddlon i'r clwb a hi oedd llywydd y clwb o 2001 i 2016. Ymunwch â ni i fwynhau prynhawn i'w gofio!

**Cymdeithas Hanes Llambed**

Cychwynnwyd tymor newydd y Gymdeithas drwy i'r Cadeirydd Selwyn Walters gyflwyno a chroesawi Dr  Michael Freeman, cyn Guradur Amgueddfa Ceredigion i siarad am 'Y Wisg Gymreig'. Amlygwyd yr hyn oedd yn sôn amdano drwy ddilyn cyfres o luniau ar sgrin.

Tybir gan lawer erbyn hyn mae Augusta Hall, Arglwyddes Llanofer, a ddyluniodd y Wisg Gymreig, a gwir yw'r ffaith iddi ddisgwyl i'w ffrindiau a'i morynion wisgo felly. Ond datblygu beth a wisgwyd gan y werin cynt a wnaeth hi, gan or-ymestyn ar y steiliau hynny.  Annhebygol hefyd meddai Michael Freeman y gwelwyd steil gwahanol o'r wisg ym mhob un o wahanol siroedd Cymru, fel y soniodd Arglwyddes Llanofer yn ei thraethawd buddugol yn eisteddfod 1836, er y byddai yna wahaniaethau.

Lluniau mewn inc neu bensil wedi eu lliwio yw llawer o'r hyn a welir cyn oddeutu 1850, yn hytrach na ffotograffau, a'r arlunydd yn defnyddio lliwiau o'i ffansi ei hun. Glas oedd lliw y clogyn hir a wisgwyd gan amlaf nid y coch a welwn mewn lluniau, neu a boblogeiddiwyd yn fwy diweddar. Hetiau dynion byddai'r gwragedd yn eu gwisgo, heb fod agos mor uchel â beth a feddylir am Het Gymreig, ond daeth y rhain yn bethau ffasiynol wedi canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'u siâp yn unigryw i Gymru.

Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, daeth yn gyffredin i ferched wisgo mewn Gwisg Gymreig ar ddydd Gŵyl Dewi neu ar lwyfan eisteddfod, ac erbyn heddiw mae'r hyn a welir partïon dawnsio yn eu gwisgo o ddefnydd llawer ysgafnach.

Daeth â Betgwn ganddo, a rhyfeddai at y ddawn oedd gan y wniadwraig o dorri a gwnio'r betgwn at ei gilydd.  Mae yna gymaint o ddefnydd yng nghwt y betgwn, a chyn lleied o gwmpas y canol.  Y llewys bron yn ddieithriad a'r bandyn o silc du o'u hamgylch.

Byddai yna enghreifftiau o betgwn byrrach, ac hyd yn oed ddim llawer mwy na siaced.

Diolchwyd i Michael Freeman am ei araith ddiddorol gan Selwyn Walters, a bu yna dipyn o holi a rhannu gwybodaeth ar ddiwedd y noson.

Croeso i aelodau newydd i ymuno â'r Gymdeithas. Bydd y cyfarfod nesa nos Fawrth, Hydref 18fed, 7.30 yn Hen Neuadd y Coleg, pan fydd Nigel Nayling yn sôn am y goedwig suddedig yn y Borth.

**Amgueddfa Llambed**

Ychydig wythnosau sydd gennych i fanteisio ar y cyfle o weld casgliadau 2016 yn yr Amgueddfa, gan y bydd yn cau ddiwedd mis Hydref dros misoedd y gaeaf.

Bydd llawer o waith i'w wneud dros y misoedd hynny, wrth ddewis casgliadau newydd o'r creiriau sydd wedi dod i law, ysgrifennu amdanynt a chyfieithu'r deunydd ayyb.

Nid ar chwarae bach mae'r casgliadau newydd yn ymddangos, a gofynnir yn garedig i'r cyhoedd ddangos eu cefnogaeth i waith yr Amgueddfa drwy fod yn 'Ffrind'. Cydnabyddir enwau pawb sy'n cyfrannu lleiafswm o £10 i'r Amgueddfa ar ein gwefan.  Medrir cael ffurflen o'r Amgueddfa, neu ei gael o e-bostio hanesllambed@ btinternet.com

Cynhelir Diwrnod Prisio arall yn yr Amgueddfa ddydd Iau, Hydref 20fed, pan fydd arbenigwr o gwmni Peter Francis, Caerfyrddin yn bresennol i brisio eich trysorau yn ddi-dâl. Does dim angen gwneud apwyntiad - galwch heibio rhwng 10yb a 3yp.

**Brondeifi**

Ar ddydd Sul, 28 Awst, cynhaliwyd Sul yr Eisteddfod yng Nghapel Brondeifi, gyda'r gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis, yn gwasanaethu. Cafwyd pregeth amserol ganddo, a threfnwyd casgliad ar gyfer Uned Dialysis, Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin. Mrs Margaret Jones oedd wrth yr organ.

Bu'r Parch Goronwy Evans ar raglen 'Prynhawn Da' ar S4C, ar ddydd Mawrth 30 Awst, yn sôn am 'Dri Pheth' - tri gwrthrych oedd yn bwysig iddo. Hefyd, ar y Sul canlynol, 4 Medi, bu'n siarad ar raglen 'Bwrw Golwg' ar BBC Radio Cymru am ganmlwyddiant geni y Parch Jacob Davies.

Ar Sul 4 Medi ym Mrondeifi, y gweinidog, y Parch Alun Wyn Davies fu'n gwasanaethu.

Nos Wener, 9 Medi, bu farw Mr David Morgan, Haulfryn, Cwmann, yn 87 oed. Dros y degawdau bu'n un o hoelion wyth y capel gan wasanaethu fel Deiacon, Ysgrifennydd y Capel, Ysgrifennydd y Festri Newydd a'r Fynwent. Cynhaliwyd angladd preifat ym Mrondeifi, dan ofal y gweinidog, y Parch Alun Wyn Dafis. Cafwyd teyrnged gan ei gyn-weinidog, y Parch Goronwy Evans. Y testun oedd 'Lle Dafydd fydd wag'. Fel dyn hynaws, cwrtais a mawr ei barch ym Mrondeifi fe fydd Mr David Morgan yn gadael lle gwag iawn ar ei ôl. Mae cydymdeimlad holl aelodau a ffrindiau'r capel gyda'i wraig, Eileen, a'r meibion a'u teuluoedd yn eu colled.

Ioan Wyn Evans, Caerfyrddin, gymerodd y gwasanaeth ar Sul 11 Medi. Yna ar Sul 18 Medi derbyniwyd sgrîn newydd i'r capel. Bydd y sgrîn yn fodd o gyfleu neges gwasanaethau mewn modd byw a gweledol. Ar y Sul canlynol, 25 Medi, Diana Bianchi, Caerdydd oedd yn gofalu am y gwasanaeth.

Ar Sul, 2 Hydref, cynhelir y Cwrdd Diolchgarwch, gyda'r Parch Alun Wyn Dafis yn gwasanaethu. Ar  Sul 9 Hydref, am 2 o'r gloch, bydd cyfarfod Croesawu a Sefydlu y Parch Alun Wyn Dafis yn weinidog ym Mrondeifi. Bydd yn dilyn criw dethol iawn wrth ddod yn bedwerydd gweinidog y capel ers 1874.

Nos Fawrth, 11 Hydref, bydd llyfr diweddara'r Parch Goronwy Evans - 'Ar Grwydr' - hanes crwydriaid Cymru, yn cael ei lansio yn Festri Brondeifi. Ac yn addas iawn, yn

# Llanbedr Pont Steffan




Daeth nifer o blant o Ysgolion Sul cyfagos i gapel Shiloh, Llambed i wrando a chymryd rhan yn sioe 'Mari Jones - Ôl fy Nhraed' sydd yn rhan o Ŵyl Hanes Cymru i Blant, gan gwmni Eleri Twynog - 'Mewn Cymeriad'. Ffion Glyn oedd yn cymeriadu ac yn adrodd y stori. Hefyd yn y llun mae Twynog Davies.



Yn Sioe Llangeitho, Glyn Davies, Ffynnonbedr enillodd yr eitem orau gyda'i blanhigyn fuchsia. Hefyd enillodd gwpan am y marciau uchaf yn adran y blodau.

dilyn y lansiad fe fydd 'te tramp' yn cael ei weini. Mae'n addo bod yn noson ddifyr i lansio cyfrol sy'n siŵr o ddenu diddordeb ar draws Cymru gyfan.

**Clwb Bowlio Llambed**

Llongyfarchiadau i Alis Butten a Melanie Thomas, y ddwy o Glwb Bowlio Llambed, sydd wedi ennill parau dan 25 Cymru. Bydd y ddwy yn cynrychioli Cymru ym mhencampwriaethau Prydain Fawr fis Gorffennaf nesaf yn Iwerddon. Hefyd gwnaeth Alis ennill parau Cymru gyda'i mam, Anwen Butten, a bydd y ddwy yn cynrychioli Cymru ym mhencampwriaeth Prydain Fawr yn Llandrindod Wells fis Mehefin nesaf.

Llongyfarchiadau i Hari Butten o Glwb Bowlio Llambed a wnaeth gynrychioli Cymru o dan 18 mewn gêm brawf yn erbyn Lloegr ar ddechrau mis Medi yng Nghlwb Bowlio y Barri.

**Plant Mewn Angen**

Bydd Goronwy a Beti a'r tîm eleni eto yn derbyn cyfraniadau tuag apêl y Plant Mewn Angen yng Nghapel Sant Tomos, Y Cwmins, Llanbed ddydd Gwener Tachwedd 18fed o 10yb i 5.30yp.

**Lansio 'Ar Grwydr'**

Nos Fawrth Hydref 11eg am 7yh yn Festri Brondeifi, bydd llyfr diweddaraf y Parch Goronwy Evans yn cael ei lansio sef 'Ar Grwydr' – hanes dros 120 o grwydriaid. Croeso cynnes iawn i bawb i'r noson. Yn dilyn y lansiad, bydd te tramp i bawb!

**Cinio'r Bedyddwyr**

Daeth cynrychiolaeth dda o aelodau Eglwysi Bedyddwyr Cylch Gogledd Teifi ynghyd i Llain y Castell nos Fawrth 20 Medi. Fe'n croesawyd yn gynnes iawn gan Mair ein Llywydd, ac offrymwyd gras gan Ann Morgan. Yn dilyn cinio tri chwrs ardderchog cyflwynodd Mair ein gŵr gwadd sef Jim Lloyd neu 'Super Jim' fel yr adnabyddir ef, un o blant eglwys Brynhafod, Gorsgoch. Cafwyd ganddo araith wych yn llawn hiwmor o'r dechrau i'r diwedd yn sôn am ei blentyndod hapus yn ardal Gorsgoch, ei gyfnod diddorol yn yr Heddlu a'r deng mlynedd arbennig fel rhan o'r rhaglen boblogaidd 'Twrio' ar S4C. Mae'n meddu ar ddawn eithriadol fel siaradwr ac roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando arno. Diolchodd Brenda iddo am rannu ei atgofion â ni mewn ffordd mor hwyliog a erys yn ein cof am amser hir. Diolchodd hefyd i Delyth am ei threfniadau manwl a chydymdeimlwyd â hi ar farwolaeth ei thad yn ddiweddar. Yn olaf ond nid y lleiaf datganodd ei gwerthfawrogiad cynnes i Brian a Mafis am baratoi gwledd o'r radd flaenaf ar ein cyfer.

Cytunai pawb ein bod wedi cael noson tu hwnt o bleserus yng nghwmni ein gilydd.

**Trip y Bedyddwyr**

Teithiodd llond bws o aelodau'r Eglwysi ar eu trip blynyddoedd ac eleni ein cyrchfan oedd gogledd Cymru gan gyrraedd Eglwys y Bedyddwyr Ainon, Llanuwchllyn cyn amser cinio. Fe'n croesawyd yn gynnes gan y Parch Carwyn Sidall. Yna cynhaliwyd oedfa fendithiol yno yng ngofal ein Gweinidog, y Parch Jill Tomos a nifer o'n haelodau yn ei chynorthwyo. Profiad arbennig oedd addoli yn yr eglwys fach hon yng ngolau cannwyll. Yna bu pawb yn mwynhau picnic cyn teithio wedyn ar y trên o Lanuwchllyn i'r Bala ac roedd y golygfeydd wrth edrych allan dros Lyn Tegid yn odidog. Treuliwyd gweddill y prynhawn yn ymweld â Byd Mari Jones yn Eglwys Llanycil. Yn gyntaf cafwyd croeso cynnes gan Nerys yn y Ganolfan Groeso a'r cyfle i wylio DVD ar hanes Mari Jones a hefyd Cymdeithas y Beibl.

Mae arddangosfa Byd Mari Jones a agorwyd yn swyddogol gan Leta Jones, gor-gor-gor-wyres Thomas Charles ar Sul 5 Hydref 2014 yn werth ei weld ac yn dod â'r hanes anhygoel yn fyw iawn. Cerddodd y ferch ifanc 15 oed 26 milltir o Lanfihangel-y Pennant i'r Bala i brynu Beibl yn y flwyddyn 1800. Roedd wedi cynilo arian am chwe blynedd er mwyn prynu Beibl yn ei hiaith ei hun, y Gymraeg - dyna chi ymdrech glodwiw.

Daeth y diwrnod i ben gyda swper blasus yng Ngwesty Llety'r Parc Aberystwyth. Diolchodd Mair i bawb oedd wedi bod ynghlwm â threfniadau'r trip am ddiwrnod llwyddiannus, diddorol a phleserus dros ben.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

**Cwrdd yr Ifanc**

Cynhelir oedfa arbennig yn Noddfa ar Sul 16 Hydref am 5 o'r gloch yng ngofal yr Ysgol Sul. Cymerir rhan mewn pennill a chân gan y plant, y bobl ifanc a'r rhieni. Estynnir croeso cynnes i bawb.

**Aelwyd yr Urdd**

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd aelodau'r Aelwyd wedi cynnal cyfarfod cyntaf y tymor newydd i baratoi rhaglen ac i fwynhau noson yng ngofal Rhydian. Nos Fawrth 1 Tachwedd disgwylir Tudur Phillips i ddod atom i noson arbennig iawn o Clocs Ffit. Dyma un o'r ffyrdd diweddaraf i gadw'n heini. Felly dewch yn llu.

Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys â Delyth a Rob Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd ar golli ei thad ddechrau mis Medi.

**Mab bach**

Llongyfarchiadau mawr i Elin a Berwyn Hughes, Pontfaen ar enedigaeth mab bach arall, Morys Siôn. Brawd bach i Tomi a Ianto. Yr un yw'n dymuniadau i Aeron ac Ann, Cwmhendryd ar ddod yn ddad-cu a mam-gu unwaith eto ac i Magw Hughes, Cartef Hafan Deg ar ddyfodiad gor-wyr arall. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

**Ymddeol**

Dymuniadau gorau i'r Athro Densil Morgan, Y Gilfach ar ei ymddeoliad o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ddiwedd Awst. Bydd yn parhau fel Athro Emeritws yno ac yn dal i weithio gyda'i fyfyrwyr Doethuriaeth. Digon o amser nawr i ymchwilio ac ysgrifennu mwy o lyfrau, ac i deithio wrth gwrs!

**Cylch Trafod Amaethyddol**

Aeth Trip Gwanwyn Cylch Trafod Amaethyddol Llanbed eleni ar 18 Mai i ardal y gororau. Ymwelwyd â Maesllwch Home Farm, Glasbury ger Henffordd. Cafwyd croeso gan Andrew Giles a'r Teulu a chyfle i fynd o amgylch y fferm i weld yr adeiladau a'r gwartheg yn pori'n hamddenol. Fferm laeth sydd yn Maesllwch lle maent yn godro tua 400 o wartheg Friesian Seland Newydd a chroes Jersey. Maent hefyd yn magu tua 300 o loi hyd y byddant yn gyflo ar fferm arall yn ardal Llyswen ac mae mab iddynt yn ffermio yn Taunton hefyd. Ffermydd rent yw'r cyfan gyda chytundeb ffermio rhyngddynt a'r tirfeddiannwr. Mae'r system yn gweithio'n effeithiol iawn ar gyfer cynlluniau presennol y teulu ac maent yn adnabyddus iawn ym myd y gwartheg godro. Prif bwyntiau eu llwyddiant dywedodd Mr Giles yw cyfathrebu da, y gallu i ryddhau cyllid gan nad ydynt yn berchen ar y tir ac felly dim benthyciadau mawr. Roedd clefyd TB yn ei boeni'n fawr, fel unrhyw ffermwr arall. Mae Mr a Mrs Giles yn cynllunio ar gyfer eu hymddeoliad yn gwybod fod y meibion yn cael cyfleoedd arbennig i gario'r gwaith ymlaen ac etifeddu busnesau llwyddiannus.

Wedi cinio blasus ochr draw'r ffin yn Bridge Inn, Kentchurch aethom yn ein blaen drwy'r 'Golden Valley' ac i Fferm Howton yn Pontrilas. Cafwyd croeso arbennig unwaith eto gan deulu a chysylltiadau â Llanbed sef Bill a Gina Quan. Cafwyd taith wych o amgylch y fferm ar ddau dreilar mawr, sy'n 700 cyfer i gyd, yn dir ar, maent hefyd yn cadw 500 o wartheg pedigri Limousin a Henffordd a thua mil o ddefaid. Maent yn rhentu 500 cyfer ychwanegol. Eto fferm ar denantiaeth oedd hon ac maent yn rhoi pwysigrwydd mawr ar gael pobl

# Llanbedr Pont Steffan




Trip y Bedyddwyr i Ogledd Cymru



Dyma dîm pêl droed dan 10 Llambed yn gwisgo eu crysau newydd. Diolch i Dean Evans  o 'Whole Appliance Repairs', Llambed am noddi'r cit. Yn y llun gwelir y sgwod dan 10 gyda'i rheolwr Dylan Davies.

ac ysgolion sydd a dim cysylltiad ag amaeth i werthfawrogi'r gwaith o gynhyrchu bwyd i ymweld a'r fferm. Mae gwyl fawr Shambala yn cael ei chynnal ym mis Awst ar dir y fferm sy'n ychwanegu'r pwyslais yma. Mae gerddi Kentchurch Court yn ffinio hefyd.    Roedd brwdfrydedd y teulu a'u hanes ym myd y gwartheg yn ganmoladwy.

Paratowyd te i bawb cyn gadael gan y teulu.

Diolchwyd i'r ddau deulu gan y Cadeirydd, Eurig Jenkins a chyflwynwyd hamper iddynt fel gwerthfawrogiad o'r croeso arbennig a gawsom.

Mwynhawyd pryd blasus iawn o fwyd ar y ffordd adre yn Bishop's Meadow a diolchodd Aneurin i bawb.  Trip cofiadwy arall!

Mae'r Pwyllgor wedi cwrdd hefyd i drafod Rhaglen y tymor nesaf ac mae'n argoeli'n dymor diddorol iawn dan gadeiryddiaeth Anwen Hughes, Bryn Gido.

Bydd hanes Trip yr Hydref yn y rhifyn nesaf.  Croeso i aelodau hen a newydd i ymuno yn nhymor yr Hydref.

**Cymdeithas Amaethyddol Llanbed**

Cynhelir y cinio blynyddol eleni ar nos Wener y 4ydd Tachwedd yng Clwb Rygbi Llanbed am 7.30yh a bydd y cyfarfod blynyddol nos Lun y 7fed o Tachwedd yn y Clwb Rygbi hefyd.  Pris y cinio fydd £22 a dylid cysylltu â'r ysgrifennydd Iwan Williams ar 422370 os oes diddordeb.

**Diolch**

Dymunaf i,  Eryl Jones, ddiolch o galon am y cardiau, anrhegion a'r ymweliadau a dderbyniais pan symudais o Gerlan i Nantsebon. Rwy'n gwerthfawrogi pob cysylltiad, pa bynnag fodd, yn fawr iawn ac fel ar aelwyd Gerlan bydd croeso eto bob amser yn Nantsebon.

**PLANT MEWN ANGEN**
Capel Sant Tomos, Llanbed
Tachwedd 18fed
10yb i 5.30yp

**Lansio 'Ar Grwydr'**
Hanes dros 120 o grwydriaid
gan y Parch Goronwy Evans
Festri Brondeifi, Llanbed
Hydref 11eg am 7yh

# Cellan



Henoed Cellan a Llanfair Clydogau yn dathlu pen-blwydd Tilly yn 90 oed yn Neuadd y Mileniwm.

**Y Dyfodol**

Mae'n anodd credu bod degawd wedi mynd heibio ers i feithrinfa Y Dyfodol agor ei drysau am y tro cyntaf yn yr Hen Ysgol, Cellan. Yn Ionawr 2006, agorodd y feithrinfa sydd, ers degawd, wedi cynnig gwasanaeth gofal plant i gannoedd o deuluoedd ardal eang o ogledd Sir Gâr a de a chanol Ceredigion. Sefydlwyd y fenter gan Dwynwen Davies, brodor o ardal Llangwyryfon a'i phartner busnes, Sabrina Jones, ac mewn partneriaeth gyda'u tîm staff bywiog a thalentog, maent wedi llwyddo i greu lleoliad gofal o'r radd flaenaf yng nghalon ein cymuned.

Ers ei sefydlu, mae'r feithrinfa wedi cyflogi a hyfforddi nifer helaeth o staff lleol, yn bennaf yn ferched sydd wedi cael cyfleon lu i fentro i fyd gofal plant a gwella eu sgiliau a'u cymwysterau. Mae Dwynwen yn tu hwnt o falch o'i thîm yn Y Dyfodol, sydd wedi ei arolygu a'i ganmol ar nifer o achlysuron am ei naws Cymreig, cartrefol, cynnes a gofalgar.

Gyda 12 o ferched yn gyflogedig yn bresennol, mae'r fusnes wedi datblygu ac esblygu dros y degawd. Bellach mae Dwynwen yn cynnal clwb gofal ar ôl ysgol i blant rhwng 3 a 12 oed yn Ysgol Bro Pedr: mae "Clwb y Ddraig" yn flwydd oed ac yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod gwyliau'r ysgolion lleol ac yn ystod diwrnodau HMS ysgolion, cynhelir clwb gwyliau ar safle Y Dyfodol yng Nghellan. Yn ystod Haf 2016, mynychodd dros 35 o blant y clwb gwyliau, gyda'r plant yn ymweld â a chefnogi nifer o fentrau a lleoliadau lleol: sioe Llambed, coedwig Longwood ynghyd â pharc chwarae pentref Cellan. Daeth llwyddiant i Lena, Nia a Naomi yng nghystadlaethau celf sioe Llambed



Bu Hari Butten yn cynrychioli Cymru yn ddiweddar mewn cystadleuaeth bowls.

a cymerodd dros 40 ran yng nghystadlaethau'r plant.

Mae staff a phlant Y Dyfodol wedi cefnogi nifer o elusennau lleol ers ei sefydlu: dros degawd, codwyd dros £17,000 i elusennau megis Ambiwlans Awyr Cymru, gyda pobl yn lleol a chenedlaethol yn manteisio ar y cyfraniadau hael a'r gwaith rhagorol.

Bydd Y Dyfodol yn dathlu ei phen-blwydd yn ei steil arferol yn ystod Ionawr a Chwefror 2017. Cofiwch gadw llygad barcud am fanylion y dathliadau yn Clonc ac ar Radio Ceredigion.

Croeso i chi gysylltu â ni ar 01570 493601 os ydych am fanylion pellach am ein gwasanaethau gofal plant neu am gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth: gwelwn ni chi yn Y Dyfodol!

**Iron Man**

Llongyfarchiadau i Kevin Hughes a gwblhaodd Ras Ironman yn Ninbych y Pysgod yn ddiweddar. Manylion llawn ar dudalen Clwb Rhedeg Sarn Helen.

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn
cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Ysgol Bro Pedr

Ysgol
Bro Pedr
A fo ben bid bont




Sophie Jones, disgybl yn Ysgol Bro Pedr, yn ennill Medal Efydd yn Karate Cymru agored i ferched 13-15 oed, o dan 5'3". Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Wrecsam.



Rhai o ddisgyblion Ysgol Bro Pedr a fu'n fuddugol mewn cystadlaethau dros wyliau'r haf gan gynnwys Sioeau, Chwaraeon, Carnifal ac Eisteddfod Llambed. Cipiodd yr ysgol £50 am yr ysgol gynradd uchaf ei marciau yn yr adran Gelf a Chrefft a Cerys Angharad yn cipio'r darian am yr unigolyn uchaf ei marciau. Derbyniodd Cerys Angharad Rosebowl er cof am Mrs Ray Morgan am y disgybl mwyaf addawol dan 12 (agored).



Charlotte Smith, disgybl yn Ysgol Bro Pedr, yn ennill Medal Aur yn y 'Junior Team Kata' gynhaliwyd ym Merthyr Tudful dros yr haf. Enillodd hefyd Fedal Efydd am 'Kumite' i ferched o dan 5'3" yn Chesterfield.



Prif Swyddogion Ysgol Bro Pedr am y flwyddyn 2016-2017 yw Prif Ferch - Nest Jenkins a'r Prif Fachgen - Alwyn Evans. Gyda'u Dirprwyon (o'r chwith) - Rhys Davies, Carie Collom, Meirion Thomas, Morgan Lewis, Caryl Jacobs a Ffion Jenkins.




Dion Deacon Jones o flwyddyn 3 Ysgol bro Pedr a gipiodd dlws 'Sports Personality of the Year' Radio Ceredigion am ei gyfraniad i fyd pêl-droed wrth iddo chwarae gyda Llambed ac Abertawe. Llongyfarchiadau mawr iddo.

# O'r Cynghorau Bro



**Cyngor Cymuned Llanybydder**


Diflas iawn roedd derbyn ymddiswyddiad Dave Doughty o'n Cyngor Cymuned. Pob hwyl a iechyd iddo nawr.

Derbyniwyd les y toiledau wrth Gyngor Sir Gaerfyrddin, i'w chadw yn saff gan y Clerc.

Mae'r Cynghorydd Ieuan Davies yn paratoi "Speed Awareness" tu allan yr ysgol. Bydd y plant yn cymryd rhan hefyd. Diolch o galon i'r Cyng I Davies.

Mae Pwyllgor y Pentref wedi prynu "defribillator" i'r pentref. Mae Arwel Morgan, Siop Y Bont wedi bodloni i'w osod tu allan ei siop. Diolch yn fawr iddo am ei garedigrwydd. Bydd hyfforddiant yn cymryd rhan yn fuan. Bu Bethan Williams yn ein cyfarfod Cyngor diwethaf. Mae'r Pwyllgor y Pentref yn rhoi £300 i'n cyngor. Diolch enfawr iddi hi a phawb yn ei Phwyllgor am y rhodd.

Rhoddwyd £50 tuag at y Ffermwyr Ifanc, Sir Gâr. Rhoddwyd £100 i Bwyllgor y Pentref Rhydcymerau.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion


Ieuan Jones
Adferwr Lluniau
Cwrtycadno




Rhoi bywyd newydd i hen lun

Ffôn: 01558 650153
e-bost: ieuan@glynhebog.co.uk
Y we: cwrtphotorestoring.com

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Gwasanaethu boeler olew
Gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi a cheginau
Ffôn: 07811052757
Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a
Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach
cysylltwch â
**Georgina Cornock-Evans**
**07967 648336**

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffyrnau Olew
- Pympiau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau

Multi Heat
Boiler Care

01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com

# Drefach a Llanwenog

**Y Gymdeithas Hŷn**

Daeth tripiau 2016 i ben ym mis Medi, â'r daith wedi'i threfnu gan Ann Walters, Ffynnonddrain (Brynhogfaen gynt). Amgueddfa Sirol Caerfyrddin yn Abergwili oedd y man aros cyntaf, a chael tua awr a hanner yno i weld y casgliadau hynafol a diddorol. Un peth i'r aelodau edrych amdano oedd un o'r ffenestri a ddaeth i'r Amgueddfa o Dŵr Paxton - hynny yn cysylltu â'r hanes cawsom gan Delyth Jones ar daith mis Awst.

Symud ymlaen wedyn tua San Clêr, i ganolfan Llety Cynnin, fferm a chanolfan gwyliau a hamdden; mae yno wyth ystafell wely moethus o wahanol maintioli, pwll nofio ac ystafell ymarfer corff, a lle bwyta – gan arbenigo mewn te prynhawn.

Teithio am nôl at Orsaf Rheilffordd Gwili ym Mronwydd wedyn, a theithio ar y trên wedi cael ychydig o'i hanes gan un o'r gwirfoddolwyr yno. Awr fach hamddenol iawn.

Heb fod ymhell o Bronwydd, mynd i Gynwyl Elfed, ac i'r Capel lle magwyd Howell Elvet Lewis (Elfed), a chael ei hanes yn gyfan gan Elspeth Page. Diddorol oedd gweld y ffenest liw sydd wedi dod i'r Capel yno o Gapel King's Cross yn Llundain, lle bu Elfed yn weinidog. Aeth Elspeth â ni wedyn i weld cartref enedigol Elfed, sef Y Gangell, bwthyn bach dwy ystafell, a'r cerrig cobbles ar y llawr. Diddorol dros ben

Pryd o fwyd yn y Plough and Harrow yn Trevaghan, cyn dechrau am adre. Diolch o galon i Ann am drefnu diwrnod mor ddiddorol ac amrywiol ar ein cyfer.

Bydd cyfarfodydd y gaeaf yn cychwyn Dydd Mercher, Hydref 12fed, a hynny yng Nghapel Bethel, Drefach am 1.30yp. Croeso cynnes i ffrindiau newydd i ymuno â ni.

**Capel Brynteg**

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Brynteg nos Fawrth, Hydref 11eg am 7yh. Disgwylir y Parchedig Peter Cutts, Caerfyrddin i wasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

**Eglwys Santes Gwenog**

Bu misoedd yr Haf yn adeg prysur yn yr Eglwys. Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd gwasanaeth i'r bedair eglwys sydd dan ofalaeth y Parchedig Suzy Bale, a hynny fel rhan o drefniadau'r Esgob, y Gwir Barchedig Wyn Evans, cyn ei ymddeoliad. Braf oedd cael croesawu Mr a Mrs Gareth Morgan o Slough, Gareth yn fab i'r diweddar Ganon Sam Morgan, a fu'n Ficer yma yn y 1940au a'r 1950au.

Priodwyd Jason a Becky Stanson, Dolau Dŵr, Drefach ar y 6ed o Awst, a'r un prynhawn bedyddiwyd Bethan Marie (o Iwerddon), wyres Mr a Mrs Ceri a Sian Davies, Ty'n y Berllan, Cwmann. Gwasanaethwyd ar y ddau achlysur gan y Ficer.

Derbyniwyd Ben a Sam Lewis o Lanwenog yn gyflawn aelodau mewn gwasanaeth Conffyrmasiwn yn Eglwys Sant Pedr Llanybydder, ar y 18fed o Fedi. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Esgob Tyddewi gyda'r Parchedig Suzy Bale yn ei gynorthwyo.

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch nos Lun Hydref 3ydd, gyda ffeirad eglwys Aberaeron yn gwasanaethu.

Cofir am bawb sy'n fethedig, neu'n methu mynychu'r oedfaon oherwydd anhwylder, a chydymdeimlwn â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Clwb 100: Mis Gorffennaf: 1. Arwyn Jones, Gellideg; 2. Alan Mellor, Rhiwson-isaf; 3. Ian Lewis. Mis Awst: 1. Beryl Lewin, Harlech, Drefach; 2. Sian Davies, Cwmann; 3. Stephen Mellor d/o Rhiwson-isaf. Mis Medi: 1. Wyn Davies, Tyngrug; 2. Eleri Lewis, Rhiwson Uchaf; 3. Ethan Abbot, Bryste.

**CFfI Llanwenog**

Mae'r clwb eisoes wedi ailddechrau ers yr haf a braf yw gweld nifer o aelodau newydd yn ein plith! Dros yr haf daeth llwyddiant i'r clwb wrth i dîm tynnu'r gelyn iau ennill y drydedd wobr dros Brydain! Hefyd, hoffem ni fel aelodau'r clwb longyfarch Enfys ac Emyr Davies am briodi ar ddechrau'r mis. Os ydych am ymuno â'r clwb neu am fwy o fanylion ewch i'r wefan www.cffillanwenog.org.uk.

**Clwb Cerdd Cledlyn**

Mae Clwb Cledlyn yn trefnu nosweithiau o ganu a pherfformio yn Neuadd y Pentre, Drefach, ar yr ail ddydd Mercher yn y mis 7yh – 10yh, i ddechrau ar y 12fed o Hydref.

Croesewir pawb i berfformio a/neu wrando, ac i fwynhau noson hyfryd o gymdeithasu.

Anogir cerddorion o bob safon i fynychu a pherfformio am 8 -10 munud.

Dewch â'ch offerynnau a thraciau cefndir, ond darperir system sain.

Bydd lluniaeth ysgafn o gacennau, a faint a fynnoch o de a choffi.

Mynediad am ddim, ond gwerthfawrogir £3 tuag at gost y neuadd.

Wedi clirio costau'r neuadd, bydd yr arian sy'n weddill yn cael ei rannu hanner a hanner rhwng Clwb Cledlyn (yr elusen maes chwarae leol) ac adran chwarae Ward Plant Ysbyty Glangwili.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Jan neu Brian, 01570 481544 neu brian.beddows@homecall.co.uk

**Ysgol Llanwenog**

Hoffem fel ysgol estyn croeso mawr i'n disgyblion bach newydd. Mae Alaw Jones, Harri Labram a Iestyn Williams wedi ymuno gyda ni ac wedi ymgartrefu yn hwylus yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen.

Diolch yn fawr i Mrs Eirlys Jones a'i chriw brwdfrydig o blant a addurnodd wilber gyda blodau deniadol ar gyfer cystadleuaeth yn y Sioe Frenhinol. Cafodd y prosiect ganmoliaeth mawr.

Cafwyd hefyd llwyddiant mawr yng nghystadlaethau y sioeau lleol yn ystod yr haf. Bu'r plant yn arlunio ac yn arddangos eu llawysgrifen, ac Ysgol Llanwenog gipiodd y darian am yr ysgol â'r pwyntiau uchaf yn sioe Gorsgoch. Hefyd cafwyd llawer o wobrau yn sioe Cwmsychbant. Da iawn chi blant.

Cynhaliwyd etholiad yn yr ysgol yn ddiweddar ar gyfer ethol aelodau newydd i Gyngor yr Ysgol. Yn dilyn pleidlais gudd dewiswyd Elen Morgan fel cadeirydd, Hannah Ayoanadu fel ysgrifennydd, Elin Lloyd fel trysorydd ac aelodau eraill y pwyllgor yw Teleri Evans, Fflur Morgan, Erin Potter Jones ac Isobelle Jones. Maent eisoes wedi dechrau trefnu gweithgareddau yn yr ysgol.

Hefyd dewiswyd Harri Rivers a Hannah Ayonadu fel Llysgenhadon Chwaraeon yr ysgol. Wedi mynychu cwrs undydd yn Ysgol Bro Pedr maent erbyn hyn yn barod i arwain a threfnu gweithgareddau amrywiol yn ein hysgol ni.

Mae clwb yr Urdd wedi cwrdd yn wythnosol â'r ffocws ar ddechrau'r tymor yw datblygu sgiliau beicio. Mae'r plant hŷn wedi bod yn dod â'u beiciau i'r ysgol tra bod y plant lleiaf wedi bod yn defnyddio'r beiciau cydbwysedd. Cafwyd llawer o hwyl yn gwella eu sgiliau.

Mae Jac ein swyddog datblygu rygbi yn ymweld bob dydd Gwener i hyrwyddo sgiliau pêl a rygbi. Diolch iddo am sesiynau da iawn.

Bu'r disgyblion Iau yn cystadlu yn nhwrnament pêl droed pump bob ochr yr Urdd yn ddiweddar yng Nghanolfan Hamdden Llanbed. Roedd yn brofiad newydd i nifer a gwnaethant yn hynod o dda. Aelodau'r tîm oedd Teifi Edwards, Elin Lloyd, Teleri Evans, Elen Morgan, Hannah Ayonadu, a Luke White.

Bu plant y Cyfnod Sylfaen ar ymweliad addysgol â Chapel Brynteg yr wythnos ddiwethaf. Diolch i Mrs Nerys Vobe am drefnu a diolch arbennig i Yvonne am eu tywys o gwmpas ac am siarad â'r plant.

Llongyfarchiadau mawr i Ethan Rees ar gael ei ddewis i garfan datblygu pêl droed Caerfyrddin.



Plant a chefnogwyr Cylch Meithrin Gwenog ar y daith gerdded flynyddol pan gerddon nhw o'r Cylch i Frynteg ac yn ôl.



Carwyn Lewis, Llanwenog, yn ennill pencampwriaeth y Gwartheg Duon Cymreig yn Sioe Llandysul

# Drefach

Byddwn yn dilyn ei ddatblygiad gyda diddordeb mawr. Da iawn ti. Hefyd llongyfarchiadau i Elen a Fflur Morgan ar eu llwyddiant mewn nifer o eisteddfodau lleol yn ddiweddar. Arbennig.

Roedd yn bleser rhoi croeso i Miss Carwen Richards i'r ysgol yr wythnos diwethaf ar gyfer wythnos o arsylwi. Mae Carwen a'i bryd ar fod yn athrawes Addysg Gorfforol. Bu'n weithgar iawn yn ystod ei hwythnos a dymunwn bob lwc iddi yn y dyfodol.

Dyma rai digwyddiadau pwysig fydd yn digwydd yn y dyfodol agos.

Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol yn Eglwys Llanwenog Hydref y 7fed am 2 o'r gloch.

Prynhawn coffi ar gyfer elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Hydref 13eg am 2 o'r gloch.

Ras Hwyl yr Ysgol – Dydd Sadwrn Hydref 22ain am 2 o'r gloch.

Dewch draw i fwynhau ac i'n cefnogi.

# Llangybi

**Ysgol Y Dderi**

Cynhaliwyd diwrnod o hyfforddiant i athrawon Cyfnod Allweddol 2 y Sir yn ddiweddar a chafwyd cyfle gwych i flasu yr holl sydd ar gael i ddatblygu cymhwysedd digidol ein plant. Braint fawr oedd derbyn gwahoddiad i gynnal stondin er mwyn rhannu arfer dda Ysgol y Dderi ym maes asesu ar gyfer dysgu yng nghyd-destun cymhwysedd digidol.

Bu'r ysgol gyfan yn dathlu diwrnod pen blwydd Roald Dahl ar y 13eg o Fedi fel arfer eleni, ond cawsom ddathliad arbennig am fod canmlwyddiant ers geni'r awdur enwog yng Nghaerdydd. Cawsom y cyfle i wahodd sioe Mewn Cymeriad a gomisiynwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru i'r ysgol. Roedd y plant wedi cwrdd ag Alf - cymeriad lliwgar, diddorol, oedd yn CARU darllen. Roedd ei got amryliw unigryw, yn llond pocedi ar gyfer ei lyfrau, a rhannodd gyda'r plant ei gariad tuag at ddarllen, gan ddatgelu'r anturiaethau oedd yn digwydd iddo pan fyddai'n dechrau darllen. Ei hoff awdur yn y byd oedd Roald Dahl. Un llyfr ar y tro, roedd Alf, yn ei ffordd ecsentrig, yn cyflwyno rhai o straeon yr awdur ac yn darllen ei hoff ddarnau. Yna, roedd ei ddychymyg yn dechrau crwydro, a dangosodd i'r plant sut oedd darllen straeon fel hyn yn gwneud iddo neud pethau dwl eraill – dyna beth oedd hwyl!

Aeth blwyddyn 5 a 6 am wythnos i Bentywyn. Cafwyd wythnos i'w chofio yn mwynhau pob math o weithgareddau amrywiol yng nghwmni eu ffrindiau megis canŵio, saethyddiaeth, gwifren sip, dringo, syrffio, nant antur, pyllau dŵr, tŷ crwn a disgo! Roedd y plant wedi mwynhau ymweld â Chastell Penfro a sefyll yn yr union ystafell ble ganed Harri Tudur! Bydd y profiad yma yn un gwerthfawr iawn pan fyddant yn astudio'r Tuduriaid nes ymlaen yn y flwyddyn. Braint hefyd oedd cael ymweld ag amgueddfa cyflymder ar y traeth a chael cyffwrdd â'r car enwog BABS! Diolch i Miss Rhian a Mr Dylan am roi o'u hamser i fynd â'r plant.

Teithiodd blant blwyddyn 3 a 4 i Gastell Aberystwyth i fwynhau gweithdy Taith Glera gyda Bardd Plant Cymru Anni Llŷn. Cafwyd amser bendigedig yn dysgu am y traddodiad o glêr, gyda Anni Llŷn yn llwyddo i ymarfer sgiliau odli a barddoni y plant yn wych mewn arddull llawn hwyl a sbri.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu Olmarch Fawr a 5 Godre'r Coed yn eu profedigaeth o golli perthynas agos yn ddiweddar.

Hefyd danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Morina Davies, Llwynonn yn ei phrofedigaeth lem o golli ei chwaer Rowena a oedd ers rhai blynyddoedd mewn cartref yn Aberteifi. Cydymdeimlir â'r holl aelodau teuluol a ffrindiau.

**Croeso**

Croeso cynnes i Mark a Cerys i'w cartref newydd yn Godre'r Coed, Olmarch. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn y gymdogaeth.

**Adferiad**

Dymunir adferiad buan a llwyr i bawb a fu dan lawdriniaeth ac yn sâl yn ddiweddar. Brysiwch wella i gyd.

**Hamdden**

Fe fydd y gymdeithas yn ail ymgynnull yn ar Hydref 7fed yn Ysgol Y Dderi am 2 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd y Bon. Michael Morgan pryd y bydd yn sôn rinweddau'r 'Defibrillator'. Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno ac unrhyw un sydd â diddordeb yn y pwnc.

**Cyngor Cymuned**

Gellir gweld dogfennau ariannol y Cyngor yn Maesyffynnon trwy wneud apwyntiad rhwng Medi 27ain hyd at Hydref 11eg o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10 a 6 o'r gloch drwy ffonio 493325.

**Diolch**

Dymuniad Mair Spate yw datgan ei diolchgarwch i bawb am y dymuniadau da, cardiau, galwadau ffôn, anrhegion a the parti bendigedig ar ei phen-blwydd arbennig. Diolch o galon i bawb.

# Llangybi a Betws Bledrws



Disgyblion Ysgol y Dderi ym Mhentwyn.



Disgyblion Ysgol y Dderi gydag Anni Llŷn yn Aberystwyth.

**Merched y Wawr Y Dderi**

Ar brynhawn Mercher, Medi 21ain treuliwyd orig ddifyr ac addysgiadol yn ymweld ag Eglwys Llanwenog pryd y bu Mary Thomas yn egluro hanes diddorol yr eglwys hynafol yma. Mae'n un o eglwysi hynaf Cymru ac wedi ei ymgeleddu yn hyfryd iawn yn y ganrif yma. Bu teulu Plas y Dolau yn garedig ac yn hael iawn tuag at yr achos yn y gorffennol, ond yn y ganrif yma derbyniwyd swm enfawr o arian gan ŵr a aned yn yr ardal ond iddo wneud ei ffortiwn yn Llundain a hynny oedd y modd i'r gwaith o atgyweirio ac addurno'r adeilad gael ei gwblhau.

Mae Joseff Rubens, ffoadur yn ystod y rhyfel ac yn gerflunydd enwog wedi gadael ar ei ôl nifer o addurniadau deniadol dros ben.

Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i Mary Thomas am yr hanes diddorol ac hefyd i'r Parch Susie Bale am ei chyfraniad hithau. Rhoddwyd y raffl gan Irene, ac fe'i henillwyd gan Eleanor. I ddiweddu y cyfarfod cawsom luniaeth ysgafn wedi ei baratoi yn yr Eglwys Fach.

Bydd ein cyfarfod nesaf yn Ysgol y Dderi am 7:00 o'r gloch ar Hydref 19eg. Cofiwch ddod a'ch hoff rysáit gyda chi ac unrhyw hanesyn neu ddogfen o ddyddiau cynnar y gangen – nôl tua 1976!

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu Station View yn eu profedigaeth o golli modryb yn Llundain yn ddiweddar.




# I'ch swyno gan Sain




**Trio**
*Cân y Celt*

**Ryland Teifi**
*Man Rhydd*

**Carreg Lafar**
*Aur*

**Caneuon Rhys Jones**


**Clwt y Ddawns**
CD DDWBWL
Casgliad o alawon ar gyfer dawnsiau gwerin Cymreig


**Hiraeth am y seren** LLYFR
Casgliad o garolau – yn arbennig o addas ar gyfer ysgolion uwchradd, unigolion a chorau











**www.sainwales.com**
ffôn 01286 831.111 ffacs 01286 831.497
sain@sainwales.com

*Rhain i gyd, a llawer mwy, ar gael o'ch siop leol neu gan Sain –*


# Cwrtnewydd

**Diolch**

Dymuna Walter Harries, Clarence ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd ar yr achlysur o golli ei briod Sally yn ddiweddar. Diolch am y cardiau, y galwadau ffôn, y blodau a'r holl gymwynasau.

Diolch i Gartref Maes-y-felin am y gofal ac i'r teulu a'r cymdogion am bob cefnogaeth.

**Pen-blwydd**

Yn ystod mis Hydref bydd Dannie Harries, Gelli yn dathlu ei ben-blwydd yn 95oed. Iechyd da i chwi Dannie eto i'r dyfodol.

**Cwrdd Diolchgarwch Seion**

Mae croeso cynnes i chwi ymuno yng nghwrdd Diolchgarwch blynyddol y Capel nos Iau, Hydref 6ed am 7y.h. Pregethir gan y Parch Chris Bolton, Llanarth.

**Ŵyr bach newydd**

Llongyfarchwn Mair Rees, Melrose ar ddod yn fam-gu – ganwyd mab i'w merch Nerys a'i phriod allan yn Tokyo bell. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu bach ac edrychwn ymlaen i'w weld yng Nghymru fach yn fuan.

**Ysgol Cwrtnewydd**

Ar benwythnos olaf gwyliau'r haf bu grŵp o ferched yr ysgol yn dawnsio'r ddawns flodau yn Eisteddfod Rhys Thomas James yn Llanbed. Edrychai'r merched yn hardd iawn yn eu gwisgoedd a'u blodau prydferth. Roedd nifer o ddisgyblion yr ysgol wedi bod yn brysur dros yr haf mewn sioeau lleol, chwaraeon, eisteddfodau ac ati a llongyfarchiadau mawr i bawb a gafodd lwyddiant.

Erbyn hyn yr ydym wedi llwyr ymgartrefu yn ôl ym mywyd dyddiol ysgol. Mae Mrs Hannah Thomas, athrawes y cyfnod sylfaen a'i gŵr Celt wedi cael bachgen bach sef Owain Griff, brawd bach i Efan. Dymunwn bob hwyl iddynt fel teulu. Mae Bethan John wedi ymuno gyda ni fel athrawes yn y cyfnod sylfaen a croeso cynnes iddi.

Rydym yn ffodus iawn yn nghyfnod allweddol dau i dderbyn hyfforddiant rygbi y tymor yma eto gan Jac Rees, Swyddog Datblygu Rygbi cylch Llanbed.

Cynhaliwyd ein etholiad blynyddol o'r Cyngor ac Eco Ysgol. Cafodd pob disgybl a staff gyfle i bleidleisio. Am y flwyddyn 2016-2017 Luned Jones yw ein Cadeiryddes, a Katy Moyes yn Is-gadeiryddes, Ysgrifenyddes yw Elan Jenkins, Trysoryddes yw Clodagh Dalton, Aelodau cyfnod allweddol dau yw Jac Rees ac Elis Jenkins ac aelodau cyfnod sylfaen yw Glesni Rees, Elen Sisto-Jones a Mari Rees. Hefyd bydd Lucy Moyes yn gyfrifol am y Pwyllgor Darllen gyda help wrth Sara, Megan, Nerys, Macauley, Sapphira ac Ella ac ein llyfrgellwyr newydd yw Katy Moyes a Lowri Rees. Pob lwc i chi gyd gyda'ch swyddi newydd.

Dathlwyd pen-blwydd Roald Dahl yn 100 oed gyda phawb yn yr ysgol yn gwisgo cymeriad allan o'i lyfrau. Gwelwyd nifer o gymeriadau megis Umpa Lumpa, Matilda, Mr Cadno Campus. Cafodd pawb ddiwrnod hyfryd ac yn y prynhawn buodd pawb yn creu jar breuddwydion.

Mae'r dair ysgol sef Cwrtnewydd, Llanwenog a Llanwnnen wedi ail gychwyn cynllun y dair ysgol, lle mae'r holl blant yn symud ysgolion ac yn gweithio gyda phlant yr un flwyddyn â hwy am ddiwrnod cyfan ac mae hyn yn digwydd bob pythefnos. Mae'r plant yn mwynhau cael cyfle i gymdeithasu a gweithio gyda chyfoedion o'r un oed.

Fe wnaeth y cyfnod sylfaen ymweld â Chapel y Bryn, Cwrtnewydd fel rhan o'i gwaith Addysg Grefyddol. Diolch yn fawr i'r Parchedig Wyn Thomas am roi o'i amser prin i adrodd hanes y capel ac i ateb nifer fawr o gwestiynau ac hefyd diolch i aelodau'r capel am adael i ni ymweld.

Bu Luned Jones a Katy Moyes am ddiwrnod hyfforddiant Llysgenhadon Efydd yn Llanbed. Bydd y merched yn cynnal sesiynau sgiliau ymarfer corff adeg chwarae cinio gyda gweddill plant yr ysgol.

Rydym erbyn hyn wedi dechrau gyda'n clwb wythnosol sef clwb yr Urdd. Cynhaliwyd noson o Gemau Gwirion, roedd y plant wedi mwynhau yn fawr iawn.

Cynhaliwyd twrnament pêl droed yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden, Llanbed dan arweiniad Rhydian o'r Urdd i ysgolion dan hanner cant o blant. Cafwyd gemau arbennig o bêl droed. Ysgol Llanwnnen a ddaeth i'r brig a nhw fydd yn cynrychioli cylch Llanbed nes ymlaen yn y flwyddyn. Pob lwc iddynt.


THE FALCONDALE
HOTEL & RESTAURANT
GWESTY A BWYTY

**Nadolig a'r Flwyddyn Newydd**

Ymunwch â ni mewn gwesty gwledig moethus go gyfer â Nadolig eleni

- Cinio Dydd Nadolig
- Te Prynhawn drwy gydol Rhagfyr
- Nos Galan

Ffoniwch am lyfryn, neu ewch i'r wefan

01570 422910
info@thefalcondale.co.uk
www.thefalcondale.co.uk

TEIARS HUW LEWIS TYRES
TEIARS BRECS BATRIS GWACAWYR
HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

# Cadwyn Cyfrinachau



**Enw:** **Rhys Douglas**
**Oed:** 20
**Pentref:** Cwmann
**Gwaith:** Gwaith fferm/cneifio.. man of many talents!
**Partner:** Single and ready to mingle.
**Teulu:** Dad, mam a Sioned

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**
Mynd lan i'r ffarm at mam-gu a dad-cu.

**Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.**
Power Rangers.

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.**
I fod yn barchus.

**Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?**
I bennu ysgol.

**Y CD cyntaf a brynest di erioed?**
Spice girls.

**Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?**
Cael row am cael 3 pwynt ddim sbel ar ôl prawf gyrru.

**Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?**
Ar noson mas gyda'r bois.

**Beth yw dy lysenw?**
Doug.

**Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti a pham?**
Jammy dodger.

**Y peth gorau am yr ardal hon?**
Nabod pawb.

**Y peth gwaethaf am yr ardal hon?**
Nabod pawb.

**Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?**
Cheetah, because it never changes it's spots!

**Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?**
Cymraeg.

**Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?**
Pobl sydd yn dweud celwydd.

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?**
Bwco gwyliau.

**Beth sy'n codi ofn arnat?**
Mam yn y bore!!

**Pryd chwydaist ti ddiwethaf?**
Dw i byth yn chwydu.

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**
Seat Ibizia.

**Pryd est ti'n grac ddiwethaf?**
Byth yn mynd yn grac, dw i yn eithaf 'laid back'.

**Sut wyt ti'n cadw'n gryf?**
Dw i yn trial mynd i'r gym pob dydd.

**Sut wyt ti'n cadw'n heini?**
Mas i wneud ymarferion chwaraeon yn lle eistedd yn gwylio teledu.

**Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?**
You only live once 'YOLO'.

**Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.**
Mynd allan i Seland Newydd i gneifio.

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**
Cryf, clyfar a ciwt.

**Beth yw dy hoff adeilad?**
Sydney harbour bridge Awstralia.

**Beth yw dy ddiod arferol?**
Lager.

**Beth wyt ti'n ei ddarllen?**
Rugby world.

**Beth yw dy hoff arogl?**
Cinio dydd Sul.

**Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?**
Tank!

**Sut wyt ti'n ymlacio?**
Yn jacuzzie.

**Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?**
Instagram.

**Sawl ffrind facebook sydd gennyt ti?**
1,254.

**Hoff gân ar dy ipod?**
Life is a highway- Rascal Flatts.

**Pa raglenni sydd ar dy Sky+?**
Chicago Fire.

**Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?**
Mark Windows.

**Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?**
Gwallt.

**Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?**
Abs.

**Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**
Celt y ci.

**Ar beth y gwnest orwario arno?**
Car.

**Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?**
Teulu.

**Y gwyliau gorau?**
Gwyliau gyda'r bois i Malia.

**Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?**
America, China a Canada.

**Pa dri pheth yr hoffet ti wneud cyn dy fod yn ddeugain?**
Chwarae rygbi llawn amser, mynd o amgylch y byd a joio bywyd.

**Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?**
Sit ups.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
**Nia Gwyther**, Betws Bledrws

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 8 | | | 7 | 3 | | 1 | |
| | | | | | | | | 2 |
| | | | | | 5 | | 8 | |
| | 2 | 8 | | 3 | | 5 | 9 | |
| | | | | | | | | |
| | 4 | 7 | | 1 | | 2 | 3 | |
| | 3 | | 1 | | | | | |
| 6 | | | | | | | | |
| | 1 | | 4 | 8 | | | 2 | 7 |

**Swdocw Medi:**
Llongyfarchiadau i **Glenys Davies,** Rhyd-y-bont, Llanybydder a diolch i bawb arall am gystadlu:

Eurwyn Davies, Heol-y-gaer, Llanybydder; Betty Prytherch, Tyngrug, Llanllwni; Mair Williams, Awelfa, New Inn; Bethan Williams, Neuadd Fryn, Llanybydder a Sian Blake, Penlon Cottages, Gorsgoch.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 4 | 6 | 7 | 8 | 1 | 3 | 2 | 5 |
| 3 | 5 | 7 | 4 | 6 | 2 | 1 | 9 | 8 |
| 1 | 8 | 2 | 3 | 9 | 5 | 6 | 7 | 4 |
| 7 | 9 | 1 | 5 | 2 | 8 | 4 | 6 | 3 |
| 4 | 2 | 5 | 6 | 3 | 7 | 8 | 1 | 9 |
| 8 | 6 | 3 | 1 | 4 | 9 | 2 | 5 | 7 |
| 2 | 7 | 9 | 8 | 1 | 4 | 5 | 3 | 6 |
| 6 | 1 | 8 | 9 | 5 | 3 | 7 | 4 | 2 |
| 5 | 3 | 4 | 2 | 7 | 6 | 9 | 8 | 1 |

# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, shw mae? Wel mae'r Hydref wedi cyrraedd ac mae'r dail yn dechrau newid eu lliwiau. 'Dw i wedi bod yn brysur dros ben yn tacluso fy nghragen yn barod ar gyfer y tywydd oer. Bues i hefyd yn cystadlu yn sioe leol Aberoncyn y penwythnos diwethaf ac enillais darian anferth am y crwban â'r gwddf hiraf. Roeddwn wrth fy modd! Ydych chi erioed wedi ennill gwobr am gystadlu? Wel beth am rhoi cynnig ar y gystadleuaeth hon?

Bu nifer fawr ohonoch yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn lliwio llun ond yr enillydd y mis hwn yw Betsan Gwladys, Henbant, Llangeithio. Da iawn ti Betsan am liwio'r llun mor daclus gan ddefnyddio holl liwiau'r enfys.

Wwww… mae'n dechrau oeri gyda'r nos nawr ac mae'r dail yn dechrau newid eu lliwiau. 'Dw i'n hoff iawn o dymor yr Hydref gan mai dyma'r amser lle dw i'n cael cyfle i orffwys a thacluso. Beth am fynd ati i liwio'r llun hydrefol hwn o'm ffrind Dewi'r Draenog yn paratoi ei gartref ef ar gyfer y gaeaf? Cofiwch ei ddychwelyd ataf erbyn Hydref 20fed.


Hwyl am y tro,




**Enillydd y mis!**

Betsan Gwladys

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.





**Enw:** **Oed:**

**Cyfeiriad:**

# Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne



**RHAGOR O ENWAU BRO'R EISTEDDFOD (87)** Parhau i ystyried rhai o enwau ardal Y Fenni a wnawn y tro hwn.

**Y FENNI**

Dyma'r dref fwyaf yng ngogledd y sir. Gellir olrhain ei dechreuad i gaer Rufeinig a elwid Gobannion gan y Brytaniaid. Mae'r enw yn cyfeirio at afon Gafenni ac yn cynnwys yr un elfennau ag a geir yn 'gof' a 'gefail'. Enw'r dref i'r Saesneg eu hiaith yw Abergavenny neu, i roi'r sillafiad cywir, ABERGAFENNI (sef aber neu geg afon Gafenni). Mae'r enw BLAENGAFENNI sef tarddle afon Gafenni, yn digwydd yn 1348. Y FENNI fel rheol yw dewis enw'r dref gan y Cymry. Mae'r enw hwnnw'n tarddu, o bosibl, naill ai o enw'r afon neu o dalfyriad o Abergafenni.

**BLOREIS/BLORENGE**

Dyma'r enw ar y bryn amlwg gerllaw maes yr eisteddfod. BLOREYS oedd ffurf y enw yn y drydedd ganrif ar ddeg. Mae ystyr yr enw yn ansicr. Cynigiwyd mai'r elfennau yn yr enw yw 'blawr' sef llwydlas ac 'ais' (un. asen). Hyd yma ni chafwyd hyd i enwau tebyg. Ond posibilrwydd arall yw bod yr enw yn perthyn i'r Gymraeg 'plôr' sef tosyn. Y ffurf seisnigedig ddiweddar yw BLORENGE - sy'n odli â'r Saesneg 'lozenge'.

**CWM-IOU**

Roedd taith i GWM-IOU wedi'i threfnu gan Gymdeithas Edward Llwyd ar ddydd Mercher yr eisteddfod. Roedd hi'n amlwg o lyfr ymwelwyr yr eglwys bod nifer dda o'r ardal hon wedi gwerthfawrogi'r profiad o ymweld â'r fan. Mae'r bryniau yng nghyffiniau CWM-IOU yn ymdebygu i bedol neu i freichiau 'iau' sef darn o bren a roir ar draws gwarrau (neu wrth gyrn) dau neu ragor o anifeiliaid sy'n cydweithio ac wrth yr aradr neu'r cert. Yn achos y nodwedd dirweddol sy'n cael ei disgrifio yma, mae'r GADER FAWR neu PEN Y GADER-FAWR yn uno'r breichiau sy'n cael eu coffáu gan ail elfen yr enw.

Roedd yr eglwys yng NGHWM-IOU yn rhyfeddol. Er bod sôn am y lle mor gynnar â'r ddeuddegfed ganrif a rhai o'r cofebau yn yr eglwys yn perthyn i'r 17eg ganrif, ni welais yr un garreg fedd Gymraeg.

**CRUCYWEL**

Y ddwy elfen yn yr enw yw 'crug' sef twmpath a'r enw personol Hywel. Gall 'crug' ddynodi bryn, yn aml mae'n dynodi twmpath o waith dyn yn ogystal â charnedd o gerrig. Yn yr achos hwn mae'r twmpath yn cael ei gysylltu â'r bryngaer tybiedig o'r Oes Haearn ar TABLE MOUNTAIN ychydig i'r gogledd o'r dref. Mae tystiolaeth mai'r hen enw ar Table Mountain oedd 'MYNYDD Y BEGWN', sef bryn addas ar gyfer tân neu olau ar gyfer dathliad neu fel rhybudd. Mae'n bosibl mai'r 'crug' yw'r castell yn y dref ei hun. Nid oes yr un dim yn hysbys am Hywel er i rai hynafiaethwyr heb sail o fath yn y byd, geisio ei gysylltu â Hywel 'brenin Gwent Uchaf'.

Mae'r nodiadau misol hyn ar enwau lleoedd yn cael eu paratoi dan nawdd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. www.cymdeithasenwaulleoeddcymru.org

# Ysgolion yn dathlu darllen Dahl



Ysgol Bro Pedr



Blwyddyn 4 Ysgol Carreg Hirfaen



Blwyddyn 5 Ysgol Carreg Hirfaen




Ysgol Cwrtnewydd



Ysgol Llanllwni



Blwyddyn 3 Ysgol Carreg Hirfaen




ARWYN VOBE
ACCOUNTANCY LTD.
ACCA
CYFRIFYDD SIARTREDIG
Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim
❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
❖ Cyflogau a CIS
❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu
ebost arwyn@avaccountancy.cymru

# Sioeau 'r pentrefi



Enillwyr Ffair Ram, Cwmann (Adroddiad ar dudalen 12)



Yn adran y cŵn yn Sioe Llanfair Clydogau, aeth y wobr gyntaf am y ci bach gorau i Iestyn Thomas, Cwmann, a 'Duchess', corgi 5 mis oed.



Beca Elan Ebenezer, Cellan, enillodd y marciau uchaf yn adran y plant yn Sioe Llanfair Clydogau.



Elaine Coombes, Llanfair, enillodd y marciau uchaf yn Sioe Llanfair Clydogau.



Rhoddwyd tarian newydd i'r sioe gan y llywydd, Oswin Lewis, a'i cyflwynodd i Pat Martin, Pentrebannau, am y marciau uchaf yn yr adran goginio.

Adroddiad Sioe Llanfair Clydogau ar dudalen 7.

Gorsaf Brawf MOT

**GAREJ BRONDEIFI**

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

**CYFRi**

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA
Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn ailfeddiannu am eich cartref.